

# **BRATIAU BUDRON (4)**

*BOBI JONES*

2015

CYNNWYS

<i>ADDYSG ANHYGOEL NAS GWAHODDWDYD</i>	5
<i>Y LLYGAID A FU FARW</i>	7
<i>HENWR YN PEIDIO Â MYND AM DRO</i>	9
<i>NID MARWNAD I GOESAU</i>	11
<i>GWRTHGILIAD SOLOMON</i>	14
<i>HEN FAM-GU I DDAFYDD</i>	16
<i>DIM AMSER</i>	18
<i>PEIDIWCH Â BOD YN DDIEITHRYN</i>	20
<i>CODI LLAW MEWN ANYMWYBOD</i>	24
<i>DAU'N DOD ADREF</i>	26
<i>PORTREAD O RYFELWR EGWAN</i>	28
<i>CRWYDRO MÔN</i>	30
<i>AIL-YMWELD AG IEUENCTID</i>	32
<i>NADOLIG TANGNEFEDDUS I DEULU</i>	37
<i>GWERTH 'DWEUD' MEWN NEITHIOR...</i>	40
<i>RHOD Y DYDDIAU NATURIOL</i>	43
<i>I. CUSAN F FARWEL</i>	
<i>II. CUSAN CYFARCH</i>	
<i>III. PROBLEM Y DYDD</i>	
<i>YR HENWR CLOFF HANNER-PAN</i>	48
<i>I. AREULEDD HENAINT</i>	
<i>II. HWYL ANADL AIL BLEN TYNDOD</i>	
<i>PLANT COPT YN CHWARAE...</i>	51
<i>DYWEDODD Y WAL RINWEDD FWY NA 'WEL'</i>	53
<i>YR ARFER O GASGLU WYTHNOSAU</i>	54
<i>NYRS O WRAIG</i>	55
<i>Y GERDD</i>	56

I. GRAS CERDDI

II. FFYNNON I GERDD

III. COF

<i>SMWDDIO CALON</i>	59
<i>MWY NA SIARAD Â THI DY HUNAN</i>	60
<i>PAN AGORODD YR HEN FARDD DDRWS</i>	61
<i>BETH WNA I Â'M CHWERTHIN?</i>	62
<i>METHU Â SIARAD</i>	64
<i>HANES DAWNS Y LLWCH</i>	65
<i>PORTREAD O BROTEST SIÓN CALFIN</i>	67
<i>PESWCH HEDDWCH</i>	70
<i>HENWR YN CAEL GWYNT</i>	72
<i>CADW DIOLCH GAEAF</i>	74
<i>GWYLLIAU AWDUR</i>	75
<i>MWYTHO'R GATH</i>	76
<i>DAU TRA HYNAFOL YN MYND I WELD Y MÔR</i>	78
<i>AWEN NADOLIG</i>	79
<i>MYNYDD</i>	80
<i>BARF WEN Y CRWT BACH</i>	81
<i>GARDD LLANILLTUD FAWR</i>	82
<i>YR HEN GEFNOGWR YMDDEOLEDIG</i>	84
<i>AFIAITH AR DDIBYN</i>	85
<i>CARWRIAETH CLOFFYN YSTYFNIG</i>	87
<i>ISIS</i>	88
<i>BARDD YR UGEINFED GANRIF</i>	89
<i>O RAN</i>	90
<i>YMATAL</i>	91
<i>MEWN TRAFNIDIAETH WEN</i>	92
<i>BUDDUGOLIAETH Y GWYLANOD</i>	93
<i>ARWYDDOCÂD CYFFES GAN Y LOBI DRYLLIAU</i>	95
<i>SEILLIAU CANT AC UGAIN O BLANT YN ABER-FAN</i>	96
<i>Y GOF YN DARLLEN Y LLUNIAU</i>	98
<i>GWIRIONI AR FYWYD</i>	100
<i>DYDD CALAN MAI YN DAMASCUS</i>	101
<i>DARLLEN HEN FFRIND</i>	103



## ADDYSG ANHYGOEL NAS GWAHODDWDYD

Pan ddwedais wrth fy ffrind na allwn i  
basio 'ngwraig, wrth gerdded heibio  
iddi yn y tŷ liw dydd, heb ei chusanu  
a phreblan rhyw ddwli wrthi,  
fe'm ceryddodd i, a'm dysgu fod  
rhai pethau (fel 'na, a wnawn i'n wŷr  
i wraig) i fod i aros yn faldodus breifat.

A dechreuais gyfrif gymaint gwiriondeb  
direswm 'ddwedem wrth ein gilydd  
nad oedd yn briodol mwy ar gynr simneiau.

Eithr y rheini, (o'r golwg) a rôl arwyddocâd  
i'n prydau bwyd a'n cyrchoedd siopa,  
oedd y llawenydd a'n hamddiffynnai'n  
wyn liw nos, pan glywn y tonnau du  
gwrth-gwsg yn taflu (na ddylent byth fod  
uwchben y gwely), – eu cysgod drosom,  
gusanau afreswm, ond hefyd rai hapus-

garedig, fel symlder, – i'n cynnal ni â'u bwyd  
dan ford fel llaeth i gath, – a'n canu grwndi  
drwy'n tipyn nos i'n go-addysgu ni  
y gall y ddaear hon wneud llawer eto  
wrth gerdded heibio i hyn o wraig wefusog,  
a minnau'n gwybod o fewn blancedi dof...  
y caf breswylio'n llon, yn llawn hyd nes  
i ffynnon dydd fy ngolchi, ac egluro

ystyron cymhleth pob rhyw ddysgwr mân  
sy'n berchen ar yr afreswm hwn o gusanu.

## Y LLYGAID A FU FARW

Pan fyddaf yn mynd am fy nhro, caf (ymhlith y gwiwerod) ddyn yno, – un a fu eisoes farw ond yn dal i gerdded â'i ben i lawr, ac eithrio bob hanner milltir pryd y cyfyd ei lygaid llugoer ryw fymryn i weld y wal, neu esgidiau rhywun.

Anesmwythaf o giledrych ar eu di-edrych. Maent yn bod er mwyn atgoffa – i'r plant a'u gwêl o ddifri – am fywyd i'w geisio nas cadd ef. Fe fu'r llygaid hyn mewn mannau annymunol; ond gobeithio y daw'r amhosibilrwydd haul dros y bryn acw i'w prynu.

Ond o edrych, â ei olygon yn ôl yn fwy marw. Ni ddealla'r plantos; ond gwêl oedolion craff (rhaf clwc, gwybodus) ddau fencyn o ddifancoll, twneli yn taenellu gwaedd fud – tameitiach o wythi llwyd dan ei dalcen tywyll, 'nyni yw Absenoldeb'.

Ef, gwn, yw maer mawr meirwon yr oes, y plant a gaethiwir yn y 'nac-oes' mewn seleri gan dreiswyr rhywiol, (gan wareiddiad a rhyddid a froliwn); rhialtwch negyddu plant yw'r llygaid affwysol hyn, gemau ar fwclis celain, angeuau hwyl, diferion mewn timestl ffos dan aelïau'r wal uchel yn hongian fel lladron wrth garchar.

Does neb yn wir berchen ar lygaid fel hyn. Pe gadewid hwy ar sedd, neu'u gollwng a'u cicio i'r nos, ni chwiliai neb am eu perchen drwy'r pyllau plwm sy'n sarhad ar anadl.

Mor llwyd ag unigrwydd mewn draen, llygaid ynt  
sy'n hawntio'r sawl a'u gwêl drwy'u hangau  
ac a gollodd bob cyswllt â bywyn bywyd byd  
fel pe llifent o hyd o'r cwlt dienyddio.

Beddau ynt

y rhai na fedrent weld mewn neb (heblaw wrth  
ei ben-glin disylw) lygaid ei gi,... sy'n rhialtwch  
a adlamai mewn rhaedrau direidi eu rhedeg cyn  
belled ag y gellid hwyl ar balmant: dau lygad  
cenau fel pe ielpiai eu sbri ar dap, a hapus eu neidio.

Lluchiai'r ci graffterau i'r awyr, wrth ochr y dyn, fel  
pe chwiliai lygaid marw'i feistr, a'u trosglwyddo i'w  
lygaid byw'i ei hun i'w cuddio a tharfu'r pyllau pŵl i beri  
crych ar wyneb eu dŵr, ci heb lamu byth i mewn  
ond yn benderfynol yn ôl, ...wedi gwrthod bod yn ddyn.



## HENWR YN PEIDIO Â MYND AM DRO

Yn hen, yn rhy ynghlwm  
wrth sedd, rwy'n magu'r sâl.  
Fe ddylwn i droi'r ardd  
a chodi 'mhâl.

Fe ddylwn ymorol beth  
ac estyn coesau clwc,  
a thaflu 'mhla diogi  
i waelod crwc.

Fy nod yw chwilio tro  
mewn tywydd sych fel na  
bydd angen rhedeg er  
bod hynny'n dda.

Argoelwyd glaw. Os prin,  
ni ddrysa fy nod.  
Ond prin yw gwybod dydd  
na fydd 'na'n dod

ryw straen neu fygwth gwaith  
ac ynddo ddyletswydd fegin,  
i'm hatal rhag y pleser  
o herio drycin.

Fy nod fydd mynd am dro  
pan na fydd hin ond taw,  
mewn hedd sy'n cerdded  
fel cwsg a ddaw.

Petruster o fath fydd tro;  
ond o oedi funud neu dri  
ceir glwth sy'n goflaid  
clyd i'm rhoi'n hedd i'r tŷ.

Esgus yw ymyrraeth bach  
ar drefn fy nydd.  
Mae cartre'n addo  
hedd a'i ceidw'n rhydd

heb law, a 'phaid' ddywedai'r  
hin wrth nod fel hyn.  
Cawod drom neithiwr  
'argoelai orffwys syn.

Ond daeth llythyr imi'r bore,  
i dreisio'r egwyl hon.  
Arhosai'n fygythiad imi,  
a llercian bron.

A gadewais hwnnw'n ddiagor,  
yn fud ar lawr.  
Ofnwn ymyrryd ag e, oherwydd  
fy mhenderfyniad nawr.

'Ai agor' i waith, 'neu aros,'  
wnaiff llythyr ddoe?  
'Dylet', dwedodd dyletswydd;  
'na', medd hoe.

## NID MARWNAD I GOESAU

[adeg treulio'r cartilag yng nghymal y glun]

1.

*Dy goesau di a gerais. Gyda thi am dro y codwn*  
wrth i'm llygaid olrhain dy wyniau'n gwau'n arthritig  
i gonsurio dy gam nesaf. Y pryd hyn dwi'n sylwi  
ar Goesau cu – o bopeth – (*Ust! Dim-ond-Coesau*).  
I gerdded iawn, rhaid canolbwyntio ar ffordd o ddifri.  
Ond pwy ar y ddaear sy'n sylwi ar '*ddim-ond-unpeth*'  
yn ein '*dim-ond unty*' undim hwn? O! goesau dewr.

*Dy goesau di a hoffais. Daeth yn bryd i'r byd*  
eu hesgusodi rhag eu methdaliad yn eu tro  
wedi i'r hen drên nwyddau ddechrau gorbwffian taith.  
Caewyd ein dydd mewn tywydd. Cysgoder hwy o hyd.  
Ond ble rhoir hen goesau? Casglwyd hwy'n ddirybudd  
mewn cornel cloff: agorwyd safle iddynt. Gyrrwyd  
eu hoff wariad yn neilltuedig arswyd ma's o'r ffordd.

*Dylai pawb wybod gwerth yr addurniadau hyn.*  
Gellid eu hailgylchu'n olygfeydd i hysbysu twristiaeth;  
neu eu hyfforddi hwy yn gledrau i glytio clawdd.  
Sefais yn aml ers talwm i'm calon eu gwylid hwy'n  
edmyglon mewn prydferthwch. Rhithient heddiw  
yn wastraff, mwy, imi'u doddi mewn blwch ymbrelau:

*eu cyfyngu mewn stondin ffyn, y ffyn a fyn*  
dy gynnal di a'th amddiffyn. Ond cafodd y rhain  
hen ddigon o orffwys drwy gydol eu diffyg tro  
mewn cefndir glaw (a rhedeg). Fel henwragedd cornel,

nyddant hen chwedlau ffals am fentrau ffôl  
mewn dyddiau iach pryd caed uchel diroedd dawnsiol.

*Ni cherdda tlysni heb fod coesau: hwy a'i diffinia.*  
Eisteddant mewn cilhaul nawr, heb chwennych  
bod yn wyllt. Ond chwarae 'coesau' wnânt, math  
o goesau chwedlonol ffug. Ac fe'th geryddi dy hun  
am ochain am goesau delfrydol. Gwthi'u hen gofion  
at ei gilydd i frolio ymbarelau llon uwch eu rholio hwy.

*Cilio yw'u cynnwys. Gosodi hwy'n drysor ar glustog,*  
hen filwyr glew. Beth i'w wneud â nhw bellach?  
Buont yn casglu ynddynt eu hunain – er hardded, –  
nad hwy oedd popeth pobl (fy mhopeth i) er haeddu  
cael cipolwg ar y ffyddloniaid hyn fu'n dwgyd degawdau  
gennyf. Wnaethant ond swydd 'dim-ond' y pâr pererin.

2

*Hwy a garaf yw'r rhai a blannaf nawr yn y pridd.*  
A heddiw yw'r un dydd gaeaf pryd 'rŷm ni'n mynd  
i ddathlu'r plannu cyntaf. 'Y bore cyntaf, fanwylyd,  
o wanwyn awn ma's am dro.' 'Dau ganllath.'  
'Dim mwy.' 'Ond ni! Ar goesau, ni!' A gofynni,  
'Beth 'wna-i yn lle coesau?' 'Caru,' meddaf i,  
'yw dy goesau.' Cariad fu'r hen waith sy'n ffrydio'n fyw

*ar dir anwes. Canant gloffni. Cariad yw'r pryfetach*  
bach cynnar sydd 'lan yn nannedd mwyalchod,  
teloriaid, a grugiar, i dybiedig grogi'r egin, ond  
yn syml i'w clywed yn braf wedi dod i gyd-ganu.

Cariad yw'r absenoldeb glaw sy'n cadw draw ddydd  
ar ôl dydd ar ôl dydd, mewn cymwynas cerdded gwanwyn  
heb fentro dim-ond canllath i ymarfer eu harddwch.

*Glaw hefyd yw'r Carwr pan ddaw. Does byth 'ddim-ond'*  
ar ddaear: mae eu delfryd yn anwel wyllt. Na ad i mi  
felly yngan yr ymadrodd 'dim-ond coesau' byth na  
'dim-ond-dim.' Maen nhw'n goddef yr hin a fynnir  
a'u dawn yw mwynhau. A sefyll yw Dydd Coesau'n wyl.  
Bydd plannu dy goesau ar dro fel plannu blodau cawr.

*Pryd bynnag yr ymwêl fy meddwl ag ystyr creu*  
dw i'n crio oblegid dy brydferthwch. Nid trist yw'n llef,  
ac nid dim-ond-'tro' fu wedi'r cyfan. Ymwêl y nef  
hithau â ni'n dagrau'n gyd-ddioddefaint mewn glaw –  
ond clyw! – oddi wrth yr Un a brofodd y gwaethaf i ddangos  
i'r cloffyn gostyngol o efrydd afrad, fod yna ar gael  
i'r 'dim-ond-cyrff', fedi tro wedi dod yn hen haf o ymarfer.

## GWRTHGILIAD SOLOMON

Ni ofynnodd am nac aur nac arian.  
Dwy ddawn a chwenychai'n ifanc –  
i garu'r Arglwydd drwy addoliad  
yn gyntaf, ac yna'n darddiadol ail  
i gael y ddawn i dywys mewn dysg  
ei bobl i ddoethineb yr ufuddhau  
i Dduw. Fe'u cadd drwy'r naill y llall,  
a sgrifennu'r llyfrau safonol am hyn oll.  
Arbenigodd drwyddynt mewn priodasau.

Drwy briodas fe wybu ef yr Eglwys.  
A chadd fwy na'r ddeuawd yna. Bu  
ambell fun yn fodd i'w synnu â Chariad.  
Drwy wraig y darluniwyd y Mab  
iddo. Methai ef ag anadlu oherwydd  
ei bochau pell. Roedd e'n llosgi ohoni.  
Oherwydd rhuthr ei gwefusau rhos  
dôl'r hwyrnos i wŷs Solomon a'i lys  
â golud tlws y brwshys paent.

Hyhi'r Eglwys, cân oedd ei theulu i'r  
gwleddau bob dydd 'gaed yn ei freuddwyd.  
Hi a esboniai iddo beth oedd harddwch  
y gymdeithas yn y Mab. Mynnai allforio  
peth o'i seren ddi-nam i bawb yn berthynas.  
Gyda hi, ni ellid credu bod yna neb  
yn cael eu cyfryw lawenydd prudd  
onid mewn ffydd caredigion. Yr Adfyw

yn y deall oedd eu priodfab. Câi olwg  
ar yr Ysbryd yn y cread: mewn serch  
ar ddaear dlawd cadd lun o Frenin Nef:  
ildiai yno'n llwydd i ddeniadau tragwyddoldeb...

OND, fel llawer arall, daearwyd ef gan un  
o lai a'i maglai wedyn, a'i datodai, ac a'i drysai  
a'i gau mewn cell na pherthynai iddi mwyach.  
Taflodd y cwbl tros 'ffyniant' cnawd Israelaidd.  
Troes 'caru'n' warchod busnes cenedl,  
yn ffrwyth i farchnad. Aeth addoli  
priadasol yn economaidd: gwingodd gwlad:  
ysgarwyd ef gan aeth gweinyddiaeth wag.  
Aeth yn fydol yn ei gwr o weinyddwr llwyd.  
Disgynnodd o fewn siafft ei gorff ei hun.

Aeth ef yn was i bres, yn suful iawn.  
Cwmpodd yn ei dro: mewn llestri  
meidrol trodd y darnau cig yn gawl,  
a'i enaid yn gorff. Fe'i gorffennwyd.  
A gwyrdd henaint Solomon oddi wrth yr Un  
a welsai: y siom a gadd nawr oedd masnachu  
busnes. Aeth yn feistr corn i gyllid gwlad.  
Cefnodd ar garedigrwydd caru, er mwyn 'peth'.  
Wedi gweld yr aur a gawd mewn machlud  
cariad i mewn i ddüwch yr hunan callestr call,  
dewisodd ochri gyda'r nos a dwyn i'w les  
cyfalafol, aflafar, aflêr a choeg ei dynerwch  
i fod yn llwch a lludw pres yn niwedd byd.

## HEN FAM-GU I DDAFYDD, Y BRENIN DAEAROL MWYAF

Wrth grwydro yn ôl ac ymlaen, ymhlith plant Duw,  
cyfarfyddwn â llawer math: lliaws yn weddol druan  
wedi coleddu gelyniaeth frwnt, ac eraill sy'n berlau.  
Yno y maent, bob maint a swydd; a llawer llun  
yn debyg i'r llall. Ond gyda hon, yn eu plith, bu un,  
ferch gyffredin, un dlos. Allwn byth fynd heibio i hon.

Anwyl yn hanes ein llwyth fu'r forwyn Ruth,  
ymhlith y glanaf o bechaduriaid yn nolen Adda.  
Ni fu hi erioed yn frenhines; ac eto, blodeuodd  
yn ffrind i'r amddifad, yn annwyl i'r genedl. Troes.

Troes hi'n gymdeithes i'w mam-yng-nghyfraith pan  
chwerwodd honno'n ddifamdod. Cadd Ruth weddwod  
ei hun; a gwelodd Naomi fod yma un a fuasai'n felysbur  
o gwmni i'r hen wag-galon. Pan gefnodd Naomi  
ar wlad ei mabwysiad chwâl, a mynnu dychwelyd  
i genedl ei geni, mynnodd Ruth ymadael â'i gwlad hithau,  
heb wybod mai hwnt ym Methlehem y darparwyd  
dau wr iddi hi. Un cyfoethog daearol, ond Gwr arall  
ynghudd mewn canrifoedd, ac yn disgwyl amdani  
ymhlith y genedl newydd ar gyfer nod hen ddihenydd.

Fe'i rhagluniwyd hi'n ach i Ben canrifoedd byd,  
yn borth i'r perthyn, yn fyw cyn Gwreiddyn pob byw.  
Fe'i canfuwyd gan Foas, ond fe'i gwelwyd ynghynt gan Dduw  
yn Eden-y-Mara dethol, yn rhan o achau dynol 'Yr Wyf',  
a'i ddwyfol ddaearol. Hyhi a gâi lenwi cenedlaeth ymhlith



yr hynafiaid a oedd i fod ar gael, mewn cyfnod, mewn sribyn  
brenhinol cudd, – i lenwi dirgelwch parhad i Adda ysgeler.

Yn rhyfeddod, yng nghanol yr hafog, croesawyd hi felly  
i'r byd, i ach Brenin y brenhinoedd: un fach 'luniwyd  
i fod yn fawr, – y nodwydd aur ddjarhebol ar lawr  
tas wair. Fe'i cuddiwyd hi a'i thlysnï tu ôl ar ryw olwg.  
Ond hi mewn ach a fu'n wen, o ddolen mor ddirgel.  
A gwn i fy hun am ambell i forwyn go debyg  
yng nghefn gwlad Ceredigion a anwyd yno ynghudd  
ar lawer cownt, i fod o'r golwg, yng nghadwyn hir  
yr Ysbryd mewn amser. Ac yn eu croth ysbrydol,  
ar linell hir calonnau, ceidw'r Brawd i'r tlawd addewid.  
Heddiw, dyry Hwnnw fwy nag amser daear iddynt dan nef.

## DIM AMSER

Pan glywodd Dafydd am Hwn, doedd ganddo  
ddim amser i fod yn frenin.

Doedd ganddo ddim  
ond yr hiraeth chwim am Un nas ganwyd eto.  
Doedd undim arall i'w wneud. Doedd ganddo ddim  
amynedd. O'i ganfod Ef unwaith, ni châi ef ganwaith  
o fod gydag E'n ddigon. Onid dim oedd ei amser mwy?

Dim oedd y llywodraethu wrth ochr y Popeth hwn,  
y Popeth a ddaw, yr Un nas deallai, a fydd.  
Yn glou daeth ato, dros ffwdan cloc, yr Un heddiw  
a thoc a rôl iddo'r byw tragwyddol. Ciliodd arferion –  
y dwedyd wrth hwnnw, plygwch, ac wrth arall, codwch.

O'i herwydd cynhwyswyd ei ben oll ef mewn salmau.  
Buasai ganddo gynlluniau unwaith, meddai rhywrai;  
ond chwaddai ef na fedrai neb synied am y fath funudau  
gweigion a feddiannai'i sylw pan oedd Hwn ar gael,  
yr Hwn wrth y bwrdd cinio, yr Hwn wrth fwrdd  
saer, yr Hwn ar bren. Angof o ofod oedd pobun arall.

Mi giliodd y munudau caethwas oherwydd Teyrnas  
a hiraethai am fod yn anwel yn ei galon. Gwas oedd biau  
bara mor beraidd: crwydrai'r gwenith heb oriau –  
ond yn ddiffino – mewn cynaeafau bach mwyach  
a dyfai drwy'r flwyddyn. Dodrefnwyd pob hiraeth  
gan ei lygaid newydd a'u canfu hwy'n llawen wrth draed:

'Rho imi'r diffyg-amser rhydd i'w dreulio erddo.  
Hwn yw fy nghusan. Pa gyffredin, pa enau a'm ceidw  
rhag aros? Taflwch yr hen amser tywyll i'r llawr  
a'i wastraff fel nas gwelaf. Mi ymwelodd â mi Frenin  
o gardotyn, a'i haul nawr at fy nrws beunyddiol;  
ac nid oes ceiniog i'w gael yn fy nghalon dlawd i roi  
iddo eiliad o ansawdd arall. Rho imi'n ddiamser Hwn.

Ac felly, caf innau gwrdd ag argyfwng ei fyw mewn salm,  
yr oriau nas ceir a'u hedifeirwch seinber, a'u pechodau  
maddeuedig, y munudau mawr taer diflanedig,  
un wedi'r llall wedi'r llall, yn olrhain pla o fyd  
gennyf, frenin cloff sy'n cario cof a chloc byd pobl  
bob tro'n ddiolch i'r Un sy'n rhoi trugaredd o'r newydd –  
drwy'r cynnau marwhapus a'r canu, yr unig Un a gurodd  
mor hyfryd ar gloc bydysawd i roi inni borfeydd gwelltog,  
y gwrth-angau maddau godineb, a lladd heb lwydd.

## PEIDIWCH Â BOD YN DDIEITHRYN

Un noson, heb eu gwahodd, daeth dau angel  
o'r prydferthaf ataf, ddyfalwn,  
i ymweld ar ddiwedd fy nhaith  
â'm haelwyd. Un perwyl a oedd yno  
ganddynt: fy ninistrio. Tybiwn  
am foment mai fy ngharthu  
oedd eu cenhadaeth. Ond mwy  
oedd eu nod na charthu. Daethant

i bob cornel o'm bywyd i eistedd  
yn ymyl fy ngwely, heb adael  
un ddihangfa heb ei dileu. Eu swydd  
oedd dweud y gwir. Cydient  
ym mhob peth – pob asgwrn tenau,  
pob llygad. Plediwn am ennyd  
ar fy ngliniau mai methiant a gyhuddent. Ond diau fod hyn  
o ddyfod wedi dwyn imi ddiamwnt gymwynas.

'Pam wyt ti'n tresmasu ar ddaear?' meddent.

Nid oedd fy nghefn ond yn lolian  
ar y glaswellt gwely, fel pobun arall  
pan glywn, wrth fy ochr, fy nwrn  
yn caledu'n barod. 'Beth yw dy bwrpas?' meddent.  
Casglu'r blynyddoedd roeddwn  
fel pobun arall... Y ddaear ei hun  
a'u hebychasai, a'u taenu

o gylch ei bysedd hi'n fwclis, wedi'u cael

ar wasgar fel gwlyth, yn wlyb  
ac ychydig yn oer fel pobun ar fy nhir... Daeth imi her:  
'Pam, drempyn, wyt ti'n beio  
y ddaear, drachefn, druan ddaear?'  
Cans nid daear fuont yno ond dau gur.

Dau angel fu wrth y drws. Dau oeddent a hoffwn  
erbyn y diwedd, ond a gasâi fy myw.  
'Beth 'wnei di â'r yfory 'na  
pan fyddwn ni'n dau wedi mynd?'...  
Dim ond datod y rhaffau, codi ac agor  
ffenestri, a gollwng y gwenwyn i'r gwynt, –  
cymryd eich dwy anadl gerfydd fy nghledr,  
gerfydd afalau fy mywyd; ac 'allan! Allan!'

gwaeddwn. Gofyn 'wnaent: 'A wnest unrhyw rithyn o beth  
o werth ar ddaear? Onid oedd pobdim  
y cwrddaist ti ag ef erioed yn halogedig,  
yn wastraff ar wead amser?  
Doedd dim oll yn haeddu dy fyw.'  
A'u dawn oedd dweud y gwir, a gwych  
y rhwygent fy mywyd yn yfflon  
nes imi holi i mi fy hun pam lai.

Eu swydd, y cydwybodau, oedd dangos fy ngwacter  
bob man, fy rhifo'n ysgyrion  
fel nad oedd gennyf ar ôl  
yr un edefyn o gyhyr a fedrai sefyll.  
A gwyddwn fod hyn oll yn gywir  
ac nad oedd un rhinwedd i'w chael

i'm cadw allan o gornel y dihiryn  
na'r un blewyn i'm hamddiffyn i fy hun.

Y ddau, a ddatglôdd fy nghragen o dafod,  
yw'r rhai a graciodd wystrys fy nghelwydd.

Yr hyn a'm cywilyddiai iddynt  
oedd yr anwir a geisiwn yn esgus

yng nghysur fy ffrindiau a'm tylwyth:  
i'r ddau buont ddirmyg i gyd.

Ond dirmygent y manau sanctaidd hyn  
a'm credoau fu'n gynhafiaeth gynt i'm pwyll.

Daeth y ddau o hyd i'm balchder tila i  
yn fy nhaclusrwydd pili-pala.

Fe'm dinoethent, a chollais fy ngafael balch.  
Fe'm cariyd drwy fy nhywyllwch fy hun  
i astudio hyn o ofod ar bob tudalen  
lle y dylai'r gerdd fod, ... nad yw.

Trafferthodd y ddau i ddwyn melltith garedig  
i mi yn hen ddieithryn ffyddlon ffiaidd.

Ac o'r diwedd wedi dwyawr hir fflangellog  
o'u peidio ag ymadael, hwy a aeth...

A daeth Trydydd, oes, y mae bob amser tri.  
A minnau'n ddim ond yn huawdl o ddihaeddiant  
ddi-werth, ddibwrpas, yn bopeth mwy'n ddilendid!

I hyn y daethai Hwn wedi'r ddau negydd  
a'u dwyawr dial ar y ddaear hon.

O'n blaen, hwy a giliodd a'm gado i ar lawr.

Mynd er mwyn i Hwn ddod yma a wnaethant,  
y Trydydd, i wrando fy niffyg,  
un Angel yn unig a chanddo glog  
a'i roi amdanaf heb ddim  
ohonof i'w weld... 'Ond myfi  
biau,' sibrydai Hwnnw o'r nefoedd,  
'dy angen, dy fawr yngan di, a'th ing.'  
Fe blygodd ac yna gwisgodd hyn o lun  
wedi addurno f'anhunedd â'i fratiau budron ei hun.

## CODI LLAW MEWN ANYMWYBOD

Dyma fi eto, ar fy nhro drwy'r wlad, ar fy herw'n hela'n awr  
Unigrwydd a Thawelwch, – dau efail. Rwy'n codi  
un o'm breichiau ryw ychydig, wrth fy ochrau. Mae'r byd  
yn boenus o normal yn y cae beunyddiol hwn.

Lan! Mae'n digwydd bob dydd. Ychydig – o'r golwg –  
o ddeilios golau'n dafnu'n sych ar gae  
ac ar dalcen sy'n dawelwch, a'u calon yn ymuno,  
a chyfodaf orfoledd fy llaw. Mae'n codi bob tro

tan fynegi fy ngobaith, a'r fuddugoliaeth honno o weld  
wedi ychwanegu at y llonydd, oleuni, heb ei weld  
mewn pridd. Beth sydd o'i le – dwed! –  
ar ddiolch am y diolch sy'n fy llenwi?

Achoswyd fi'n berfformiad ar ganol y cae cyfrin hwn.  
Ni welwn neb arall. Ni'm gwelais i  
fi fy hun. Yr isymwybod, heb wybod, a'm hanwesodd  
dair munud: er clod am floedd o law gyhoeddus.

Arhoswyd fi. Codwyd llaw o fuddugoliaeth fel pe bai  
gan rywun, o'r rhedyn draw, nen a redodd  
i mewn i mi. Ac yna, gwenodd yr haul i gyd  
ar draws f'ymwybod a chyffwrdd. Ffodd anymwybod

dan draed ei wenau. Diau fod fy llaw fyrbwyll  
yn llawn o'm hamheuaeth fy hun. Ond yna  
gwenais innau am ben f'ymwybod. Beth yw'r ots?



Caf ddatroi'n ôl yn wahanol ond yn debyg.

Ond am dair munud gwelwyd llaw o'r ne'n llawn  
o ras arbennig, yn estyn gyffwrdd â thw  
fy llaw innau o bridd y cread cyffredin. Mor lân  
oedd E; ac mae'n gwneud fel 'na bob dydd...

Eto, yno arhoswyd fi heb wybod. Ac er i sioc yr haul droi'n  
ymwybod oer, rhoddwyd hyn am dair munud,  
ni wn pam tair. Ond rwy'n gweld pobl ifainc  
draw ar waelod yr allt. Eu cenhedlaeth nhw nawr

sy'n chwerthin a minnau'n chwerthin. Maen  
nhw'n estyn eu gyddfau caleidosgôp er mwyn  
syllu ar brydferthwch gorffennol eu gwlad sy'n  
ein lapio fel dillad i'n cadw ni'n fwndel twym

neu'n dwymach na'r ddaear normal. Maen  
nhw'n tynnu'u lluniau i fod yn falch o'u bodoli;  
a wincia f'amrannau. (Dw i'n bwyta rhai pobl ifainc  
i frecwast.) Dyna pam mewn cae go normal

rwy'n gweld fy ngobaith mor uchel las. Mor ffraeth  
fu iddyn nhw fy ngweld i'n codi fy llaw i'r lle  
iawn, yn falch fy hun hefyd o'm gwlad fel un a ddaethai  
ati dan haul yn adferedig ifanc... A gwybod.

## DAU'N DOD ADREF

*[Saif Angau o'm blaen heddiw, fel dyn sy'n hiraethu am weld ei dŷ ar ôl iddo  
dreulio blynyddoedd lawer mewn caethiwed: Memrwn o'r Hen Aifft.]*

Dau hen, ond dau sy'n cuddio ynddynt  
ifainc. Dau'n profi ynddynt ddyddiau  
glas o hyd. Ond elyrch ŷnt sy'n dal  
yn ffyddlonach wrth ymadael â'r dŵr  
fel petaent yn ddrych o'u mewn  
o'r nenfwd 'lan â'u gwefusau myrddiwn.

Cynyddai'r cusan hwnnw wrth gasglu  
amser. Wrth ddeall yr hen beth, fe âi'n  
hehediad ni'n gryfach. Y gyfrinach oedd  
y trydydd yn y briodas, y Tawel hwn  
a dorrodd y tawelwch, ac a ddywedodd  
yr ystyr anwel, ac a'n carodd ni mewn trefn.

Colledig mewn meillion uchod pan ehedodd  
yr wybren i lawr, a'n baw ni 'lan, own  
i ddau feddwl bach a gollwyd gan bwyll  
drwy ogr eu clytiau adenydd: mae wedi  
bod yn un o'r pethau hen sy'n mynd plop yn y  
nos, ond mae'i ateb mor lân â bola baban.

Daethai'r dyddiau arnynt. Ond roeddent  
yn chwennych y dychwelyd i fyny  
a arhosai mor gyndyn o fewn eu cwrdd;  
a rhywsut cawsent y syndod o gario'r lan  
gyda hwy. Ac arhosent 'lan yn llwch

y llawr, am fod yna gyfrinach rhwng deuddyn.

Rhaid yw i bopeth fynd 'lan i ddau – y tosturi  
a'r tristwch. Rhaid, hyd yn oed, i'r diwedd  
henaidd sarhau nawr ddisgyrchiant, iddynt  
gael eu cario 'lan ar gefnau'r elyrch  
llawn sŵn hedegog. Dau glwtyn ar waed  
a drowasgwyd ynghynt dan draed ar lawr.

Efô fu'n Faddau. Efô wrth stwffio Ei sach  
â chusanau o garthffosydd ymostwng, (Efô  
hefyd sy'n gwneud Nadolig), estyniad gŵyl  
yw hyn tuag-i-fyny oddi-lawr i'w hen  
ddiddanwch 'sgota Ef gael esgyn ar gortyn  
whi! ni'n ôl dros Ei ben i'r fased Basg.

Ynot Ti yr oedd ein priodas ni wedi  
dechrau. Ein geni ynot fu'n ei miniogi hi.  
Gwnâi Dy farw Di fwy. Pwy a ddyfalai  
y caem ein priodi ar heddwch Croes  
i fod yn adlais i lyn anwes rhwng breichiau,  
a ni heb wneud ond gofyn y ffordd?

Ar y Groes y cawsom ddechrau tyfu  
o hedyn mwstard 'adnabod yn Feiblaidd'  
ar y tir hyfforddi hwn, yn ymarfer ag Un  
ar gyfer ein priodas 'lan pan ddisgwyliem  
Di o bawb yn Drindod barod â'th uniad perffaith.  
'Wnaethom ni ddim ond gofyn y Ffordd.

## PORTREAD O RYFELWR EGWAN

(wrth groesawu ymwelydd)

Daeth un yma i ladd arnaf. 'Arhoswch,' meddwn, 'efallai  
y gallwn eich helpu dipyn. Mi wn i wendidau lawer.'  
'Gwybod pechod! Bach yw gwybod heb ddifaru.'  
Eithr gwyddwn fod nod y gwactod yn y cychwyn.

Ac i gael ennill, penderfynais ymladd â mi fy hun.  
Gwirfoddolai rhai o'm herlynwyr. Amheuwn efallai  
y chwaraeai'r rheina'n ysgafn. Ond clatsiwn i (o'm nabod) –  
oni allwn roi cweir i hwn? – a'm doddi fy hun yn fy mhoced?

Mae'r myfi sy'n gweld ei angen yn ei weld ei hun.  
Gwell iddo golli: yna bydd un hanner o'r rhyfel ar ben.  
Hunan-fodlon sy'n agor y caeedig o fewn ei ymchwydd:  
tafarnwr iddo yw hyn o farnwr, meddw o hyd.

Mae'r dyn, heb wynebu'i angen, heb ei wynebu'i hun.  
Ni wêl drwy haearn amddiffynfa ond hanner ei dranc.  
Rhyngddo a'r haul, yn ei lygaid, mae'r awyr yn ddu.  
Y golau a egyr y drws: di-ego fyddai peidio ag agor.

Er hynny, arhosodd fy hanes yn hyll wrth y drws. Ni ddaethwn  
i fod yn ymwelydd â mi fy hun. Beth a allwn  
ei wneud? Crino; peidio. Mewn asgwrn-cefnrwydd o betalau  
a'm methiant fy hun yn y llaid, hyn o allwedd oedd fy rhaid.

Felly minnau, cefais lwybr tarw wrth ladd arnaf fy hun.  
Gŵyr fy marw am gartref da wrth hollti fy mhen,

a sylweddoli mai drwy fföedigaeth rhagof fy hun yn unig  
a thrwy i-ffwrddrwydd o gymylau mae'r ateb i'r amryw nebaid.

Ond dau hanner sydd i fywyd. Ennill methiant yw un ateb –  
sef mentro i'r plygu ildio mewn rhyfel. Ail hanner,  
pan fo dyn wedi plicio'i ffeidd-dra o'i badell o gnawd  
yw cwrdd â'r Ymwelydd sy'n ei ennyn â gras tir anwel.

## CRWYDRO MÔN

Ar ôl iddo gyrraedd yr ynys,  
gwelai ei bod yn deg, ac estynnai  
hi ddwylo iddo aros.

Ond gwyddai fod angen lleisiau  
arno, i'w phreswyllo. Heb eu sŵn  
nid arhosai'i hiraeth.

Felly arhosodd, a gwelodd Goedanna,  
Penmynydd, a Rhos-y-bol, oll am roi  
a derbyn adleisiau tawel.

Mor deg oedd eu gofod. Siaradai'r  
lleoedd mewn cloddiau yn dyner  
fel llechweddau tyner drwyddo.

Chwiliai danynt, yn wahadden ddiwyd,  
am fwy o leisiau. Pe bai wynebau gan  
weddïau, dyna hwy. 'Ow glustiau!'

Ond dywedodd perchen yr Ynys,  
'chei ond ychydig o leisiau. Bydd lleoedd  
mud yn ddigonol am ychydig.'

Bu'r cloddiau yn wir eu gair  
a'r llechweddau'n mud glodfori.  
Y tincial hwn sydd gan adeiladau

er na chanant sill. Ac arhosodd ef ddwy  
flynedd, a diolchodd fod y moliant oll  
wedi oedi ar ddaear cyn i'r môr orlifo;

a'i fod-ef gynt, efô yno, wedi'i chlywed.

## AIL-YMWELD AG IEUENCTID

1.

Mae'r hiraeth sy am adfer  
ieuenctid yn fath o odineb.  
Ni ddylid chwennych yr hyn  
na ellir a fuom gynt.  
O dyrchu y dyddiau gwan,  
lladratawn ninnau adfywio atgno.

Does dim rhaid mynd  
yn bell iawn i'r gorffennol  
i ddod o hyd i rywun hoff  
i'w anghofio. Ond pan ddoi di  
at hwnnw, mae eisiau oedi,  
oherwydd tydi dy hun fu hwn.

2.

Paid â chwenychu oedi'n rhy hir  
mewn amser nas haeddi di.  
Mae'r fuchedd a gynlluniwyd  
ar dy gyfer di yn dy gyfarch.  
Dy newid di 'wna hi i gerdded  
rhagot gydag Un drwy ddyffryn.

Byddai dy groen anffyddlon di  
am dyfu'n ddi-oedran i gyd  
oni bai am un gramen losg,  
na elli faddau o'r galon



i ti dy hun am fethu â maddau  
i'r heneiddiwr fflyrtiog ynot ti ers tro.

3.

Ond na chofleidia'r henaint chwaith  
nad yw'n heini. Hen  
yw denu'r blynyddoedd. Paid â derbyn  
dim sy'n llai. Os oes rhaid  
wrth ail blentyndod cymer di dy drai.  
A chymer y bai, a etifeddaist ganddo.

Ond paid â dysgu gwau mewn cornel,  
oherwydd byddai hynny  
yn dy weindio di'n ôl yn frau  
ac i mewn i'r wisg, un oed:  
rheitiach fyddai teithio'n noeth,  
penydu tu hwnt i dwyni'r meddwl.

4.

Gwaraidd fyddai i ti, wedi'r newid,  
dy hun gollir gwyll  
a gariaist ar gefn dy lorri  
wrth i ti ymadael â thi dy hun.  
Os doi di wyneb yn wyneb  
â'r godineb oedran, bydd ddewr

ac yn barod iawn i gwffio  
yn erbyn dy henoed dy hun.  
Byddi'n anesmwyth ac am ddwyn  
dodrefn amgen, rhywbeth

i bacio'r cywilydd mewn bocs  
a'i gloi yn anghofus glyd;

5.

ond ei di ddim yn ddigon hen.

Mae yna ferch fwy ffyddlon ar gael,  
gan Un a gaed o'r cychwyn, a'r un briodas  
a pharatoi gwledd o faddeuant.

Coginia hi ameuthunion (panas i ti)  
dim ond i ti, beth bynnag dy ddeiet;

mae hi'n teithio gyda'r cynhaeaf

gyda llond côl o wenith atat.

Mae rhai modrwyau 'ddynodwyd i ddwyn

yn enw aur ifanc arnynt,

yn ifanc i wacáu'r euogrwydd, i fod

yn undod serhocach nag undyn arall.

6.

Yr Eglwys yw hi. Derbyn dy daith

drwyddi'n rhan o unplygrwydd perthyn.

O'i mewn ceir cymorth i fwydo'r

cerddediad rhydd. Mae'r patrwm

a wnaethpwyd inni'n llawn o ddyletswyddau

mor aliwn fel na allwn eu cyfrif i gyd.

Ar ôl i ti dyfu yn un yn y crys clodfori

golchedig, bydd hi wedi golchi

un arall. Dere'n agosach ati

er dy ofn i'th anadl ei difwyno.

Ond dere di'n ôl i'th oedran. Yn dy law  
bydd rhywbeth arall – d'afu edifar –

7.

dy goludd yn gwilydd, a thithau  
a hithau yn un wedi'ch nyddu  
yn eich gilydd. Saith-deg-saith waith  
fydd dy raid i wau ym mhob oes  
ddillad newydd. Ac ochr yn ochr uwch  
oesoedd, cewch gyd-ddysgu brwydro.

Hi yw'r Eglwys sy byth heb oedran,  
lle nad yw henaint ond yn un  
o'r gorsafoedd dysgu ar hyd cwmni  
lle nad yw 'gorffen' ond mewn hun  
yr eir drwyddi yn dreiddgar o driw  
gydag atgo diatgno diangen.

8.

Mewn henaint daw'r Gysurwraig  
â chân i'r galon am wanwyn  
o henoed na ddaw yn ôl ag oed  
i aeaf rhagorach mewn blwyddyn union.  
Ffôl fu fflyrtian yn ffug anunion  
â glanddyn a lygreiddiwyd.

Ond yn waliau'r tabernacl y dodwyd  
cerrig adeiladu oesoedd  
o gredu, meini'r merthyron na fedrent  
heneiddio na diffoddi.  
Allor fu'u hamser a ddawnsiai

eu cannwyll mewn Creu tragywydd.

## NADOLIG TANGNEFEDDUS I DEULU O NAW

(amser rhyfel)

Mudodd distawrwydd dros ein rhyfel o Nadolig.

Ni wyddem ble'r âi'r rhialtwch cas, ond yno,

dôl ar draws y bwrdd teuluol ar ffurf tangnefedd.

Nid oedd yno neb ond rhai a berthynai drwy naw

o graceri i'r cariad distaw lle'r oedd y gwyllt yn wâr,

heb golli'r gwyllt fel pe bai'n groes i ddefod o drwst

a iachawyd, a heuwyd; a thyfwyd yno yn y pridd

yn nannedd diwylliant angau gan bleidwyr gwanwyn,

drwy'r ddaear a'i dynol lwch, fwstwr heddwch. Ac ynys

oeddem ar ddaear am foment yn aflwydd gwaelod

ein taran-flwyddyn yn newydd hen, fel lleidr pen-ffordd

a ddisgwyliai tu ôl i lwyni a'i wyl tangnefedd yn barod

â'i basg o wanwyn yn ysbail i ymosodiad. Roedd yr Wyl

ar gael i chwalu a hefyd i roi hwyl 'nôl at ei gilydd, yn rhoi

ac i chwalu ynghyd yn garnifal o bobl wedi bod yn farw,

yn olau yn awr yn angladd led y byd. A gadawsom ni

ein ffatri arfau honno o ddaear, cerdded i lawr

y stryd i ofyn bendith wrth fwrdd. Daeth Ef a'i hedd

yn fwyd i ni mewn cad-gamlan. Am ddysglaid

o oriau gostegodd y gwynt. A bu tangnefedd gan

y dinod. A dywedodd y Penteulu, 'Pam, O! pam

y mae arnoch ofn?' Adwaenai'r holl donnau ef,

ac ufuddhau.

O fewn gorfoledd Nadolig nef

ffocyssem ar Un, a'i ddwylo tragwyddol greithiog.

\*

\*

\*

Bydd llawer yn synied bod sŵn yn hanfod rhaid  
i Nadolig. Ond nid y trwst o'r Dwyrain Canol heddiw  
a dywyllodd ein bwrdd. Caed dathlu mewn parti crwn  
arferol ar Wyl; ac yn y gwyll, ceid, hyd y bedlam, ffydd  
dros y byd, fwrdd Pasg lle roedd 'na lawen lonydd.

Dieithr yn yr unfed ganrif ar hugain hon yw clywed  
ei lais mor glir, mor gudd, mor amlwg yma nawr.  
Tybiem mai brwydr rheidrwydd swrth oedd sŵn  
i'r Wyl hon. Ond Ef ddaeth yno â'i ddyrchafiad tawel.  
Ar ei liniau yn ein meddwl roedd heddwch wrthi'n hyfforddi  
llawer o'n haddoli llawen...

Yn naw calon ohonom

o gylch y bwrdd, hongiasom ein haddurniadau  
ar ddwbl helics gyda chanhwyllau, heb un terfysg:  
os bu tyrfau, un anwel fu hwnnw rhwng Ei hedd a'n hedd.

Naw oeddem ni i gynrychioli'r dyrfa gyffredin  
a geisiai Nadolig amgen, yn nannedd y frwydr.  
Cawsom ddwyawr neu dair o dangnefedd yn llawn o sŵn  
di-glyw bwyd. Cawd dathlu gan lu mewn enaid. Ein swae  
mewn heddwch a wrthatebai'r cythraul cas  
mewn smaldod chwerthin, mewn gosteg wastad, mewn Dyn.  
Cawd saith torth a saith pysgodyn. Gwisgem goronau papur  
heb falio am yfory gan fod hwnnw wrthi'n brysur  
yn gofalu am ei ddrwg ei hun... drwy wledd.

Yn anweledig, yn weledig ei law, dywedai'r Gwestai

lond ein calon: 'Na thrafferthwch eich calonnau.  
Fe ymddiriedwch yn Nuw: ymddiriedwch ynof finnau.'  
Pa eisiau i greadur godi brwydr i fwydo'r byd?

Daeth Oen, i'n gwared o'n hofnau a'n hymdrechion  
proffidiol, â'i wledd helaeth; ac yna'r peidio yno,  
y peidio araf sy'n iachusio trwst y byd. Oen  
a'i ymaros estron, mewn serenedd a dorrodd y bara,  
a ddihunasai ein llygaid a ni o'r newydd,... heb elw  
a'i ledu hyd heddiw'r ddaear, ... i'w aeonau yn wledd.

## GWERTH 'DWEUD' MEWN NEITHIOR RHWNG DAU GARIAD

Nid digon yw caru. Mae eisiau'i  
gofnodi mewn geiriau. Mae'r sain 'caru'  
yn cyfoethogi'r gwneuthur. Eto ar ddaear  
sy'n llawn o sŵn casáu, y mae'n wiw  
ymglywed i'r byw â'n bod ninnau'n  
llond ein croen o'r sudd sydd i'r gair.

Bob amser, mae eisiau ei 'ddweud'.  
Nid digon yw teimlo. Yr afael  
yw dweud dolen y realedd sy rhyngom.  
Ac eto, er mor haelfryd ryfedd  
yw rhwyddineb teimlad, mae eisiau  
ynom ni'r gair i'n hatgoffa am lawer mwy.

A'r gair hwn y mynnaf i ei gael  
yw'r un sy'n amlwg. Ond anamlwg  
yw hefyd. A lle y bo'n anamlwg tost  
mae ynot ti'r awydd i'w glywed ef  
yma'n ymgartrefu rhyngom bob dydd  
yn rhydd am ei fod yn atsain o'n clwm.

Un gair llai na 'charu' yw 'ych-â-fi' o bobtu.  
*'Dw i'n ych-â-fi.'* 'Mi wn.' *'A thi felly,*  
*(dy garu wna-i), dal di ati i ngharu i....'*  
*'Dw i'n methu peidio.'* *'Dal ati te'n ffyddlon*  
*i fethu â pheidio.'* 'Fe'i gwna i'n gwmni  
yn llond fy mhen a'm corff o'r un ych-â-fi'  
sy'n crymu dan faich ein gilydd i ladd ei afael.



Mae eisiau dweud hwnnw hefyd canys  
hanfod yw hyn i'r caru. Ni wŷr yr anwes  
eithaf nawr, heblaw'r cytuno rhwng persain  
ac arswyd sy'n toi o'r gyffes i mewn  
i'r caru sy mor gyndynnus bob dydd  
rhwng yr ynys gyd-rhwng dau hŷn 'leihawyd.

Ac eto, pan symudi i'm gwâl glaf,  
ti'r piano sy'n dysgu i'r morthwyl ganu  
'gwyn', daw'r gair yn llon i'm llaw'n  
betrus. Gair llai a oeda ar fy nhafod  
a llercian ddisgwyl drwy hyn o nos  
nes gafael drwy dy droi di imi'n gân.

Yn rhan o ddweud y llai sy ynom  
fe gân 'wawr', nad yw yno, ynom  
oherwydd ei rhoi'n ddirprwyol i'r rhai  
a'i cais; ac i'r gwag sy'n llawn.  
Y gyffes mewn cell o wely yw'r gân  
o ddiolch i ddeuawd o dan y fendith fân.

Gosodwn air llai i ateb pob cynghanedd serch,  
a hyn a rown drwy gân y galon wael,  
a'i chadw gyda'r lleill yn dwym,  
yn rhwym wrth ein gwylaidd goleddu,  
nes inni orfoleddu wrth blant y byd  
a'r hud a rydd lamidyddion.

Cyd-ddweud â'r ddaear a wnawn  
drwy'r Gair sy'n glod yn glynu

wrth dlodion d'ledus, ac wrth y brwnt glân.  
Ei Air yw'r un, gyda'r weithred, sy'n cyfannu.  
Felly rhed neithior dweud, y gyffes a'r caru'n  
ddiferion ynghyd â'u hangen am Nef a'i rinwedd  
Ef yn air – gan Un sy heno i bawb yn grëwr Llais.

## RHOD Y DYDDIAU NATURIOL

### 1. CUSAN FFARWEL I'R DYDD

Ffarwel i'r dydd. Yr haul nawr fydd  
yn cogio mynd, a'i gorff mawr sydd  
am droi'n ymadael, fel pe bai  
wedi lletya ar ddaear dro, esgus.

Bu'r octopws ar ddwylo mud  
yn camu'n orwel i ffwrdd o'n traeth,  
a'i hir dentaclau'n fflamau fry  
a ymlusga ar ei ôl yn gaeth

i ffrwytho. Uchderau 'wyr y ddawn  
o ostwng dro â'u holltion ne'  
i wneud cenhedloedd tlawd islaw  
yn dôn uwch miwsig hyd y lle.

O gorff tentaclau gwyrdd yr haul,  
eu cân, fel dail, a lanwai'n dâl  
a'i ffosydd. Dadwneud uchder 'wnâi,  
a'i swydd o drai fydd dod yn ôl.

Ond beth yw'r dydd a'n ceidw ni  
rhag camu 'lan? Disgyrchiant yw  
a'n clyma rhag ymuno'n llawn  
a glynu'i heulwen yn ein clyw.

Fwyd daear! rho, fwyd adar gwan...  
O! Haul. Maetha â nodau mân  
rod!... A thafla – o'th uwch-nen nawr,  
i'n calonnau gwrth-wawr, – gusan tân.

## 2. CUSAN CYFARCH NOS

Daeth Nos dros y dibyn i gario in furgyn  
o ddydd ar ei hysgwydd, mewn hedyn o hud,  
a'i hust fu'n ymestyn dros wely'r-lladd wedyn  
i gripian heb oedi nid-hyfyd.

Paratowyd gynt erlid gan Noson o'i chwrlid  
pan ddaeth yn ddigyllid i lyncu ein haul.  
Rhôï heddwch i boen y gwaith-tŷ a'r sosbenni  
a thrôï strach aceri yn araul.

Paratôdd hi au freuddwyd diobaith ar aelwyd,  
i'r di-gwsg aflonydd, mai twyll ydoedd Dydd.  
Fe lanwodd Nos hinon â'i sbwriel a'i sborion  
a'n calon mewn ogof o negydd:

chwedl ddychan oedd Noson rhwng deuglawr adfeilion:  
nos gron, lle bydd dynion byd arall yn byw.  
Mud fyddant gan mwyaf. Anadlant yn araf  
a'u drewdod o'r hagraf unigryw.

Taer wynt fydd eu chwythad dros diroedd digariad,  
a'r sêr fydd eu syniad am freuddwyd o fri.  
Ond crud o ehediaid ('ddisgwylir yn ddibaid)

'naid eto â'u Dydd-enaid i'n geni.

Yn fin i'w ddychrynydd, daw Dydd in mor ddedwydd:  
(fe werthwn bob Nos sydd, am Ddydd na wŷr ddu).  
Drwy Nos-ddydd, bugeiliwyd. Bwygilydd goleuwyd  
ein rhod gan y Baban, tan ganu.

### 3. PROBLEM Y DYDD

(i)

Y broblem oedd wynebu Dydd,  
a datrys cam cychwynnol sydd  
ar draws y ddôl i'w ddwyn yn ôl:  
ei darddiad o rod yn ateb.

Heddiw, fy ngwaith yw datrys gwawr.  
A'r broblem gyntaf nawr yw 'deall'.  
Dyna graidd pob sgwrs â'n gilydd  
oherwydd gair y dydd yw deall

yr olygfa hon, a chwilio'i chynnydd  
o awr i awr, drwy oleuni'n codi synnwyr  
'gwerth', dod-o-hyd yn hyn o gerdd i un  
rhyfeddod yn ei dro; a'r llawnder 'diben'

yw canfod lle mae ynddo 'ddefnydd cymen'  
a ninnau'n gwybod bod yr hen fangre hon  
wedi'i chuddio'n fedd gan 'lysnafedd' Adda.  
Gadawodd inni eiriau anabl i'r broblem.

(ii)

*Datrys*

Er i'r 'dydd' ballu ag oedi inni ddyfalu'r 'sŵn,  
arhosodd 'Gwynt' o'i gylch i'n cario yma  
i dylino toes yn 'fara' syml wrth ford  
i'n nerthu ar gyfer iaith y Gerdd a gaed

cyn i'r 'wawr' agor. Clöwyd ystyr 'haul'  
er mwyn myfyrio'r hanes a arhosai'n gwestiwn;  
ond â'i adenydd gwyn wedi'u lledu'n llydan  
mewn undod yn y gwynt. Mae'i fach yn llawer.

Y broblem oedd ateb ynddo'i fod yn bod  
ar gael yn 'Haul'. Paham? Bydd hyn o gais  
yn llais go dwym i olrhain rhywbeth sy  
mor syml fel y llwyddai i fod yn fawl.

Bob cam wrth chwilio hyn, ein brecwast fu'r  
rhyddiaith lythrennol. Wrth 'rannu' y diffiniwn,  
a sylwi'n galed ar lwybr y tu hwnt i eiriau,  
rhwng 'iaith' ac 'iaith', drwy gaethwas hen

o 'loer', a'r 'tap', a'r 'dŵr', a 'ni', ein hun,  
nes blodeuo'n gyffredin drwy'n bodolaeth hen,  
fodoli'n ffrind i 'Riannon' bêr a 'Branwen';  
ac 'Olwen' sy'n ir i gyd i'r lledu llydan.

Mawl yw'r geiriau addas i feddiannu'r 'Heulwen',  
profi ei gwerth yw dyrchafu'n serth ei sŵn.  
Gogoniant yw hyn ar symlder ymennydd pŵl

yn canu'r ateb uchel ach i hyn o ffŵl:

'Oedd melynach ei phen na blodau banadl,  
oedd gwynnach ei chnawd na distrych y don.  
Wrth iro'r erwain, dysgu'r cur y bu'r tir crwn,  
mor hynafol ddigon: geiriai 'haul' i'r Cread hwn.'

## YR HENWR CLOFF HANNER-PAN

### I. Y GAMP O GERDDED

Cydymaith ydyw'r ffon. Hen gyfaill yw  
na'm bradycha i. Ei swydd yw mynd ar daith  
yn was-reolwr. Gŵyr ei fod yn feistr  
ufudd a ffyddlon. Lleddf yw'i nod yn bur  
mewn byd go goeg a gred nad oes dim nod  
yn well na chyd-heneiddio ag un methodig.

Wedi mynd yn hen, ar dro mae'r tipyn ffon  
yn cerdded ar ei thro y tu mewn i mi,  
hyd yn oed ar dro olaf lle bynnag byth y bo.  
Hebdi â'r unigrwydd ynof yn gloff i'm byw.  
Mae cyd-fyfyrio'r gorffennol newydd hwn  
yn ail i ddarganfod golygfa'r dyfodol plentyn.

Crupl sy'n methu â cherdded; cwmp ar drwyn.  
Dwy drefn, y naill ben a'r llall, ar hyd ein hoes  
a'r bwlch sydd yn y canol rhyngddynt yw  
yr ysbaid i'w gwahanu-ddysgu, fel y gohirir  
yr ail blentyndod. Dywedir yr â ein hanadl yn llwm  
wrth ddod yn ail grwt hen heb anadl newydd.

Gwn am un cyfaill gwawd a ganfu'r bychan  
ynof. 'Eco ych chi'ch dau yn neupen bro,'  
medd ef. 'Copio!' Ond mi glywais anadl arall  
a geisiai ynof ddarn duchan o ddistawrwydd –  
nad wyf yn ei haeddu mwy ger y dibyn trwst



gynt: distawrwydd yr Un a wnaeth im yma lanfa.

Elw i'w gilydd yw'r anadl hon a ni: yn drydydd.  
Eli yw'r un na allwn ni'i hadennill yn llawn.  
Elw o gelain plentyn yw'r anadl hon sy'n llon  
mewn ffon ddiffiniau, pryd y daw hi'n gyfeilydd  
i gân fel gwlad o amser. Hapus ei droed yw  
am na all plentyn ymlaen llaw ddirnad datrys.

Yr eco anhaeddiannol yw nef. 'A phaid  
â holi,' parabla si araul fy hen afonydd.  
Ond holi 'wnes. Esboniant, o'r tu ôl  
i'r tangnefedd amyneddgar, fod mynydd  
o faddeuant wedi esgor arnaf, er yn gudd,  
nas haeddwyd gan neb, a maddau 'wnaeth

imi chwythu sŵn fel hyn, heb dician 'toc'  
dan y ford – nes rhyddhau'r anadl newydd ynof  
yn ateb, awyr a leddfa y cwbl o'm hangen.  
Y grefft ddarganfod yw'r hen hwyl hon a welir:  
Gweld syn ar ddeupen mwy 'ddô'i'n un i mi'n  
addewid a fydd, bob oedran, o gael Rhyfeddod.

## II. AREULEDD HENAIN YN YR HAUL

Math o drosedd wancus ydyw henaint.

Lladrata yw  
i'r ifanc mae'n diriogaeth  
sy'n ffôl i'w chwennyach  
gan lawned ei sach o syched.

Mae trysori'r egin ieuanc,  
gan henwyr, yn grair o wireb.  
Ond os yw'r gwrthwyneb  
yn ddewisol, beth yw'r hiraeth  
am haul yr hwyr?

Mae rhai o'i orsafoedd a ganoloedwyd  
inni i'w neilltuo'n aur.  
Mae derbyn eu buchedd  
a derbyn eu taith dangnefeddus  
yn rhan go ddirgel o hwyr-rodio araul.

Paradocs profedig yw bod yn barod  
i gwffio'n gloff ond o blaid  
ein henoed anheini. Ond llwybr  
a wnaethpwyd inni'n llawn anrhegion yw  
fel na allwn eu cyfrif i gyd; mor gybydd.

Pwysig ar fy ffon ddiffiniol i  
heb chwenychu mwy na pheidio  
â phwyso arni hi ei hun.  
Pwysig yw derbyn cynllun  
y ffon ryfeddol hon, y Pren  
sy'n cario dyn o lun i lun yn lân.

## PLANT COPT YN CHWARAE SWREALAETH YR AIFFT

Plantos 'fyn fychanu peryg.  
Cadwant synnwyr drwy drawsffurfio  
creulonderau y tu allan. Plant sy'n heintus  
i'w rhieni, yma rhithiant  
mewn calonnau hurt ryw hyder  
prudd dibryder yn yr Aiff.

Ar y strim-stram-strellach ddaear  
mewn sawl cornel collir limpín.  
Yn yr Aiff mae gwaed yn hurt-bost.  
Geilw yr ugeinfed ganrif  
am gael gwaed ar ddeubost capan  
eto i amddiffyn rhag cynddeirio.

Chwarae i lawer, oed argyfwng,  
ydyw hwyliâu plant ar aelwyd.  
Ar dir sobrwydd elwyf rhieni  
y mae gwynfyd mewn seleri  
wrthi'n acrobatio obeutu  
rhyddid rhuddem tir yr Aiff.

Ynghlwm mewn tŷ, does neb yn cysgu:  
ci a chath yn chwarae cerdiau  
ac mae'r plant wrth fwyta brecwast  
ar eu traed. Gofalwyd peidio  
â gwneud drws i hyn o stafell  
rhag i'r ji-had ddod at febyd.

I'r rhai 'erys, llys yw'r preswyl.  
Er mor wallgo, chwarae ffugio  
sy'n eu clymu yn y stormydd.  
A dymunant gael coleddu  
hedd yng nghanol cyflafanu  
fel – pe na bai ond naturiol –  
ac yn rhan o'u bara beunydd.

Cêl yw'r plantos tu mewn iddynt  
hwy eu hunain, a'u ffrind daear  
yn celwydda'i bod yn ddaear.  
Cogia hyder-gweld gan blantos  
eu bod yn fod. Mae'u lleisiau dyddiol  
bychain hwy am ddeall pechod  
nas deallwyd gan y gelyn.

Plant i'r Copt sy'n hardd gopïo  
dyddiau heddwch, amser styrbio.  
Pethau bychain a dihosan,  
swrealaidd yng ngwynt Ebrill.  
Felly dichon yn eu chwarddiad  
bydd eu tŷ'n parhau tan 'fory  
pan ddaw synnwyr 'nôl i aelwyd  
o gael Gwyliedydd ar y to.

2013

## DYWEDODD Y WAL RINWEDD FWY NA 'WEL'

Gwranda ar y wal, Wil. Paid â gwneud popeth  
y mae'n ei ddweud. Os bydd hi'n dy gyfarch,  
hyd yn oed â'i thawelwch, paid â'i chredu  
hi. Ceisio dy ddenu i gynnal dialog y mae.  
Weithiau, mae ei brawddegau'n fyr. Ond gelli  
dithau wneud hynny'n ddigon rhwydd dy hun.

Os gelli, tyrcha a thyrcha dan wal y fynwent.  
Datgymala di hi fesul cyhyren. Cer odani. Chwilia  
am ei chywair. Ceisio dy wawdio y mae hi. Rwyd  
ti'n nabod ei siort. Yr unig rinwedd sy ynddi  
yw ei bod hi'n aros. Mae'n sefyll yn nannedd gwynt  
ac aros, fel pe bai wedi cael ei adeiladu i hynny.  
Ac os cymeri di d'amser, fe weli di mai cynghori  
y mae hi. Dechreuodd yr eira bentyrri wrth waelod, ac  
roedd hi'n synied y byddai hyn o daw yn gwmni.

Lle annibynnol yw wal; a pheth defnyddiol yw  
yn enwedig mewn mynwent fel hon; a doeth yw.  
Toddi wnaeth calon hon, yn hagrach aml-lyncog  
difyfraith, ychydig yn fawlyd, ychydig yn dawelach  
na doe. Eto, does dim byw byth i ti heb wal. Wel! Hi  
yw'r gof-golofn i heddwch, yn frics gwridog preswyl  
hen. Mae'i thangnefedd yn gydymaith iddi, ddiwedd  
dydd. Ac er nad yw'n dawnsio gyda'r nos, mae'n hoffi  
gwylid ac aros ac amynedda... Ufuddha di i'r wal  
yn ddistaw, felly. Edrycha i'r dyfodol. A gwena.

## YR ARFER O GASGLU WYTHNOSAU AR DDYDD MAWRTH

Eleni, mae'r gwaith o gario'r buniau o'r sied  
at iet yr hewl yn drymach ar nos Lun.

Mae'n mynd â'r gwynt. Rhaid gorffwys bob hyn  
a hyn cyn cyrraedd pen. Gwnaf deithiau mân  
gwahân i'w trefnu wrth aberthu wythnosau'n araf.

Daeth yr adeg imi ddodi'r wythnos allan eto:  
buniau ticiog llyncgar dan lanw'u dyddiau  
i mewn nes bod y lori faw yn ysigo  
hyd y llawr bob un yn colli ei hanadl  
ddiynni droednoeth ar draul y byd o'i deutu.

Doedd neb am fod yno, – pilion afalau dorf  
draw'n gwarafun lle i'r geiriau papur-newydd  
hen yn llawn o enwau sbwriel ar dudalennau  
cefn anghofiedig, (genedigaethau'n rhedeg i ffwrdd  
i domen y dre), er gwaetha'r deiet iach a gariwyd  
ganddyn nhw oll, a'r oriau a daflwyd o'r diwedd.

Erbyn bore Mawrth, mae'r wythnos hon wedi cilio.  
Stopiodd y lori'n llai yr wythnos hon, yn llai  
lai byth yr wythnos nesaf, ac felly ymlaen  
i'r wythnos olaf, heb brofi bod pwysau trwm  
am gynyddu wrth gasglu wythnosau yn ei chorff.  
Casglu yr ydys ddagrau mân amser ar groen lemonau,  
heb fod ar frys ond yn drech na'r moroedd. A gwnânt  
yr hyn maent yn ei wybod orau eisoes: cyrraedd  
mwyach grwyn ffrwythau a aeafwyd llynedd i'r llawr.  
Mae'r wythnosau hyn yn graddol fynd yn ysgafnach.

## NYRS O WRAIG

Dw i ddim yn dweud dy fod di'n mynnu mwynhau  
fy salwch. Ond pan dw i'n nogio, myn dy funudau  
grwydro fel nyrs o gylch ward fy nghefn a'm breichiau  
i fwynhau'r llyfrau ar fy silffoedd ac i gyweirio asennau  
nad ydyn nhw'n hoffi'r stori hon.

Ddim hon! Ond stori  
yw i'w chadw a'r staeriau i'w dringo hyd llawr y llofft,  
hyd y llofft feichus, y llofft straeniog i figyrnau toredig –  
oherwydd yno, pan dw i'n sâl, rwyt ti yno'n disgleirio  
a dwylo del yn casglu mwyar yn y goedwig rhwng drain  
ar hwyrnos hafaidd, fflamingo diludw yn chwyrliō  
llwynog yn yr awyr mewn gwallgofrwydd anghofus cân  
o gylch esmwythder dy wddwg gan fethu'n lân â'th flino,  
a'th fflachiadau di-storm yn lapio'u tangnefedd o gylch  
fy nghlwyfau, a thithau'n eu llyfu'n dyner i ffwndrad  
cwsg o fewn y cofion oll, i dario mor dirion â hun.

Mi ei ar dy daith guddiedig pan wedi yma d'aruthredd.  
Dyna sut rwyt ti'n doredig, fel y cuddia dy gymwynasau  
isaf yn fwy gostyngedig na'r llwch ar y silff uchaf  
nas defnyddia llestri, yn fwy gostyngedig na sŵn  
eira mewn mynwent ganol nos, ac yn fwy gostyngedig  
yn dy gerdded boregodi ataf nes peidio heddiw â bod.

## Y GERDD

### 1. GRAS CERDDI

Foroedd yn ôl  
pan hedai'r geiriau gwynion  
yn ager i'r mynyddoedd  
i ffwrdd o'r gerdd,  
tywyddai Pasg  
fel esgyrn yn cyfodi  
o lif y dyfroedd, gwylan  
â'i miwsig clwm.

Fynyddoedd yn ôl,  
ffarweliai'r gair â'r ddaear  
tuag at y golau egin:  
gwyddai gartre.  
Ni rwystrai llygaid haul  
fi rhag clywed llonder  
yr odlau a hidlai hedd  
o raeadr llwnc.

Gras oedd y gwynt  
a'u chwythai'n ôl i'r galon.  
Rhodd rydd nas haeddai neb  
ar fore da oedd gras.  
Cyfod dy glust eto  
i dreulio yn d'enaid  
ddiferion mawr o wawr  
yr eigion o rodd.



## 2. FFYNNON I GERDD

O fewn pob cerdd y torrir syched ynddi, –  
heblaw ei geiriau sy'n ei gwneud yn glir, –  
fe geir un tân nad yw e fel tân arall  
a lysg bob patrwm mydr o fewn y tir

yn harddwch gwawr. O fewn y tân sy'n hofran  
rhoddir oerfendith glaw i eni'r dydd.  
Bydd brwydr dyn ei hun yn erbyn cysgu  
yn ein denu i redeg i'r bore'n rhyfedd rydd

yw agor y glaw, a thynnu mur ei blisgyn  
a chracio'r cyfrinachau tân sy yn y gair  
a'u taflu'n gusanau atom ar eu geni  
i fyny o'r ddaear a dyf, isymwybod gwair.

Dyma ein diwrnod. Daw. Mae'n bod o'r diwedd.  
Oedodd o'r golwg. Dienyddiwyd rhwystr a'i drais.  
Genir ffrwd cyrff na cheisient ddim ond glawio  
a dodwy'r gwawl i'w canu mewn cenllysg llais.

## 3. COF

O fewn cwpwrdd y cof  
dodais sgidiau dawnsio  
yn gofnod am y syndod  
yn fy nhaid o ben

ynghau mewn glôb pellennig  
lle rhagddywedais eni:

dyma un breswylfa  
na ddaw-e iddi mwy.

Blodau'n egino, os cofiaf,  
oedd y sgidiau gynt  
wrth brancio, drwy'r glôb  
o galon, lle y ceisiais serch.

O fewn fysgyfaint dawns  
fframiwyd carchar hafddydd  
a rhoi fy holl deganau'n  
daclus i'r cwpwrdd hwn

yn un ac un, heb droedio  
mwy yn eu sgidiau sbort,  
nes tyfai'r wyres hithau  
i'w gwisgo'n doriad dydd.

Cofia di'i throedio! Pan dynnir  
allan, o'r cwpwrdd tywyll,  
gynifer, bydda-innau'n  
betalau dros y llawr.

## SMWDDIO CALON

Dw i ddim yn credu y gallet ti byth heneiddio  
yn encilion fy meddwl. O leiaf, dyw dy fynd  
a'th ddod ddim yn adfeilio yn ein hannedd ni.  
Ystyfnig tua'r haul fu dy wenau cyndynaf di

a meddal yw dy fysedd ar gasyn fy ngobennydd –  
ysgafn fel atgofion plu dan bwysau doe fy mhen.  
Gwreigen fach wyt ti'n teimlo casys trymach beunydd,  
ac yn plygu i'r eirlaw fel oriau ddiwedd wythnos gron.

Pan gyrhaeddi ymyl y ford-smwddio, ac yno eistedd,  
a'th gefn ynghrwm, – a llwm-wyn yw ager yr hin, –  
byddi di'n teimlo dy fod dy hun yn ymestyn dros grys  
ataf o'th flaen dan bwysau'r haearn mwyn-drwm hwn.

Anwyli di esmwythyd araul fy nghrys megis pe baet  
wedi darganfod ynys newydd ger Coleg y Lli.  
Mae aroglau'r crys mor dirion i'th ffroenau ffri  
wrth smwddio crys â chusan wedi ein huno ni'n ni.

## MWY NA SIARAD Â THI DY HUNAN

Paid â hidio am dy fod di'n mynnu siarad  
â thi dy hun. Mae pawb yn ei wneud. Does dim  
ots nad oes neb yn gwrando. Mae Ef  
yn gwrando. A bydd Ef wedi dy glywed  
aeonau yn ôl cyn iti ddechrau murmur.

Gofyn roet ti am Ei gwmni. Dyna'r dweud  
na elli di ddim ei ddweud yn llawn. Allet ti  
ddim gadael Ei lonydd yn llonydd. Disodlodd  
Ei galon dy dafod. Dywedodd dy ddistawrwydd  
'na', drwy'r Presennol sy'n ateb i'r amhresennol.

Iddo Fe, y drefn ydoedd: *nid* yngan angau.  
Roedd y rhaid, wnaeth i ti agor dy geg yn fyw  
cyn dy ddwyn di ato, eisoes ar waith diwyd  
mewn ymddiddan cudd. Roedd E'n dy glywed  
am dy fod di'n methu â pheidio â dweud dim.

O! Dduw, yr Un aml-felltennog, yr unig ddiolch  
drwy'r gaeaf i'w ofyn yw bod gen Ti lawer o glustiau  
fel y codi, ar fy radar i bob mynydd i'w ddringo,  
pob dafad goll yn mewian rhwng plyg y bryniau,  
pob afon i drochi ynnddi â'r gair: ... 'Rwy'n clywed.'

## PAN AGORODD YR HEN FARDD DDRWS GWALES

Beth yw pwrpas drws wedi'r cwbl? Rhwystr  
roedd ar bawb eisiau'i agor oedd. Rhwystr  
mewn amser rhag gafael yn yfory.

Drwy'r drws gellid canfod pytiau o goch,  
yn goleuo. Roedd y bardd ifanc yn gwybod  
fod y rhain yn siŵr o aros yn wawr iddo byth.

Robinod a geid yn y gor-ddyddiau hynny,  
a hercian i ffwrdd wnaethan nhw heb ond  
gadael cochni gwaed yn ddelw ar retina.

Ond roedd popeth wedi chwerthin ei ochrau  
wrth i'r bardd ifanc ei dwyllo'i hun fod ei dagrau  
wedi plisgo'n wallt gwyn mewn pridd, heb eu hagog,

a'u bod yn allwedd i adar ei aeafwydd,  
fel y bydd priodas yn breuddwydio ffansi  
wen a nos. Ni ddaw eu colledion tan wedyn.

Roedd yr eira wedi anghofio bod yna amser  
ar gael lle'r oedd ef hyd yn oed yn ddeunaw oed  
o gerdded byth tu ôl i gefn y gwynt a'r glaw.

Ond heddiw esgeulusodd yr haul ei arferiad  
o adael i'r ceffylau ddod at yr henwr hwn ar lawr  
i'w arogl'n hunan-dwyllodrus yno yn hyn o aeaf,  
yn flinedig gan y dewin a gododd glawr y blwch.

## BETH WNA I Â'M CHWERTHIN?

Beth wna-i â'r galon ddianadl?  
Coeg heddiw yw ei chwerthin hi  
bellach pryd mae'r amseroedd  
wedi'u gadael i lithro allan  
o'm gafael yn Eden ar slent.

Yn Syria, difri yw methu  
â gwybod pa ochr i'w chefnogi,  
ond bod rhaid dal ati i ladd  
rhywrai am eu bod yn pleidio  
rhyw fath o ddileu blodau  
ar unrhyw fath o ochr am y tro.

A ga-i bractisio arfau cemegol  
ar eu llygaid chwerthinus gan  
fod rhyfel wedi'i sylfaenu ar Ddim?  
Beth wna i â'r chwant am farwolaethau?  
A wna-i adael i'r rhain, sy wedi'u banio  
er mwyn ymdrochi mewn baw o jôc?

Ai lladd y blynyddoedd er mwyn  
allforio gwae? Er mwyn chwarae yn yr ardd?  
Beth wna-i â'u chwerthin du  
ond ei anadlu o dan ddrôn  
uwch crefydd efengyl tangnefedd  
heb ôl ar ddwylo'r un Cymro  
o'i wiriondeb lladdgar coeg ar slent?

Mae'r dydd a wnaeth bopeth iddyn nhw,  
yn eu herbyn yn gwingo yn y twll  
am gael ei adael yn llonydd, a'i angladd  
erthylyn awr wedi'i wneud yn angof  
eisoes dan gryndod hir pasgedig  
plant Damascus. Ond doedden nhw ddim

am ei ddileu: y dydd a wnaed gan Dduw.  
Bu'n rhy unigryw i hynny. Gosodan nhw ef  
yn friwus frau a charcus i mewn i fased  
i'w dynnu allan o'u het yn funudau tila,  
mewn malurion lawer fel y campiai'r  
rheini o un ochr i'r llall, yng nghlwyfau'r baw.

2015

## METHU Â SIARAD

(i B.)

Rhaid i mi groesi atat dros  
gopaon o sillafau.  
Nid wyt ti'n aroglu machlud.

Erys dy wefusau'n goch  
eu tawelwch. Mae'r amser  
yn pallu cau ei lygaid. Erys

machlud dy dân ar ymylon  
y gorwelion gorolau chwil.  
Dringaf i'm lleuad groesawgar

fy hun, ac felly ni allaf yngan,  
ni allaf ddweud fy nghalon  
yn dy ofod fel y mae'r llawr

i ni ar ôl oes o lefaru gaeaf  
yn llithrig. Drwy aros yn y noson  
heb wywo, cawn gyd-rewi'n dwym.

Caf lefaru ynot am ein bod yn un,  
llefaru drosot flodeuad o wanwyn,  
llefaru drwot ar ben crychiadau'r môr.



## HANES DAWNS Y LLWCH

Darllenais yr efengyl â gwefusau dwst.  
Dadbiliwyd y llygaid. O'r Gair  
goleuai'r llwch.

Syrthiodd fy nghyffes  
sigledig oddi ar ei thraed,  
yn rhiniau lu i'r llawr,  
fel dawnswyr â'u llam uwchamser  
uwch gofod, a phob awr  
mewn plasty-ddaear.

Dadlennwyd i lenor  
y ddaear yn ddigelwydd. A'r sillau  
carlamog yn eiriau.  
Syrthiodd y sillau'n  
union ar lawr.  
Fe'u codais i'm genau  
a blesais y wawr.

Ar freichiau gloddestwyd, ar fysedd y gwleddwyd,  
penliniau gymerwyd yn gynhwysion i'w hud.  
Casglwyd gwddwg i ganu, a gwallt i'n diddanu,  
a sŵn i'n cusanu a llenwi ein bryd.

Rhydd pridd inni gorff, mae'n rhoi inni fywyd.  
O'r dechrau mae'n helaeth, a'i ras imi'n nwyd  
Mae'n rhoi inni fywyd... nes gorlenwi ein byd  
a'i hawlio – nes cwympo o'i ddewis i gyd –

o ddeintio gostyngeiddrwydd y gân sy'n datganu,  
wedi dadgwympo o drugaredd Ei Air.

## PORTREAD O BROTEST SIÔN CALFIN

### 1

Chwythwyd ei feddwl. Gymaint yn awr  
a ddigwyddodd drwy eiliad o aros a newid.  
Roedd y ffaith i'r gwir ddod allan i blygu  
ei fi, wedi'i sefyll e uwch yr hunan crwn;  
y creu tal gan Arall, a'i gnawd  
– ei freichiau a'i wddf a'i lygaid a'i draed  
  
– o'r diwedd wedi'u cynnwys gan ddeddf  
oedd yn gwbl rydd.

Ni allai fod yn Siôn  
mwyach. Er mwyn bod yn Siôn trowyd  
ef yn dyner gan Dduw-ddyn, yn ffrwydrad  
o blentyn a ddaeth drwy groth yn Ysbryd;  
argraffwyd pob llythyren gan Iesu i fod

yn fydysawd gwaed a sgrifennai yno gan  
ei absenoldeb; nid ef yn awr, ond yr hwn  
a'i gwnaeth yn chwyth o ddyn, yn chwyth  
i air uwch-ddwedyd, yno'n fodolyn. Agorwyd  
drws meidrol sillaf yn Air. Dôi pawb o'i gylch  
a dorrai drwy'r drws i ne' o aros-newid.

### 2

Gofod ac amser a gaethiwasai Siôn  
mewn cynt, mewn allanol a fethodd.  
Ond trwy'u habsen fe'i codwyd o'r pwll  
fel nad oedd dewis. Dim ond drwy rodd  
fe'i tynnwyd e rhag *faux-pas* Faust, a'i dynnu

i dwll golau ffydd rhag ffieidd-dra'r balch.  
Ehedodd uwch Sadwrn a Sul ac uwch  
pob sefydliad, datodwyd, syrthiodd  
eu rhaffau. Gwisgwyd eu hamser oll gan Ysbryd.

Cyn bod amser, fe'i hachubwyd ef rhag amser.  
Heb iddo ennill dim, cafodd y cwbl yn rhodd,  
a'r cwbl hwnnw'n llond basged o gurfa gariad.

3

Roedd ar Siôn hiraeth am fod yn amhoblogaidd.  
Pe byddai'n gymeradwy gan ddynion eraill a phawb  
o hil bechod yn ei gael yn gynefin a'i ganmol, gwyddai

nad gwyn ei fyd fyddai na'i enaid tlawd na'i galon.  
Ond gwyddai y dylai ef garu y cyfan oll hwn  
a choledd petheuach, y bychain a'r mawrion, heb fod

yn falch o'i 'hunan'. Mi fyddai'i fyd tywyll yn sêr  
prydfarth eu sôn dros ddaear o Fôn i Fynwy.  
'Bydd y rheini'n boblogaidd i'th feddwl, Siôn Calfin.

Cei'r ddawn ddynol o fod wedi dy ganmol gan y sawl  
sy'n anfrehinol. Fe roddaf iti annerbynioldeb yn groes  
i'th graen; dy dad Adda a drodd i ti fywyd i waered;

a hyn yw dy ddechrau a'th ddiwedd. Hyn hefyd a gwymp  
am d'ysgwyddau, a addurna â diliau dy aeliau, a'th wddf,  
daffodiliau fyddi, er braw i'r byd. Dy lais o dan Ysbryd,

yn ddinas waed a lanha'r traed heddiw, a wŷr gael ei galw o'r pridd.'

A chadarnhad mwyaf Siôn Calfin i'r byd oedd Na.

## PESWCH HEDDWCH

Bob tro pan ddô'i'r plentyn,  
(er gwaethaf arferoldeb braw  
o dan daw ffurfafen)  
dô'i'r peswch.  
Ac fe ffô'i'r  
hydd oddi ar uchderau'r garn honno i ffwrdd  
i ffwrdd  
oherwydd tamaid o ffrwydrad gan anadl.

Ond y tro hwn arhosodd.  
Ni ddeallwyd pam, oni bai  
fod hynny o hedd gafwyd yn ddigon o dyst  
i'r hydd ei fod yn gwybod pwy  
a ddô'i â'r glec hon  
– o arfer –  
heb âm mewn grym amheus  
marwolaeth, ... gan rywun na ddysgodd  
y wers gywrain gas o saethu.

Nef oedd y peswch – o blentyn.  
Ymddiriedasai'r hydd eisoes  
yn yr hedd a gafodd ffurf  
yn hyn o ffurfafen-fraw o'i amgylch yno.

A nawr wedi sylweddoli pa fath o beswch  
a godai – o'r ochr draw i'r garn  
gyson yn farn addfwyn ddihedeg  
o sŵn diniwed, caeodd yr hydd

ei lygaid hyderus, a gweld, – fel petai, –  
pa ansawdd gwaeledd fuasai yn hyn o beswch...  
a phlentyn bach a gâi yno i dywys.

## HENWR YN CAEL GWYNT I ANFON LEIN DDILLAD YN LLATAI

Llonydd oedd y leiniau, beth bynnag 'ddywedai'r gwynt.  
Aros yn llonydd farw a wnaent ill dwy, o chwyth i chwyth.  
Rhyw hanner neges oedd. Ond pan ddô'r gwynt â'i neges  
lawn, cawsant ymchwyddo. Dyna'r lle roedd y gwynt  
yn eu llewysau fel breichiau milwyr ar barêd  
yn bwysig i gyd; ac yng ngwisg eu coesau uwchben  
codent hwy i fywyd. A'r golch mawr nawr yn barod ym mhob man.

Uniaethom wrth i'r gwynt ein chwythu ynghyd.  
Dô'r gwynt fel postmon. Ceisiai'r neges newid bywyd  
sgerbydau. Disgynnent â phob cenadwri arnynt – fel marw weithiau,  
gorfoledd weithiau eraill. Ond pan lanwyd ein leiniau  
â'i fywyd, – sowldwyr oeddem, yn fyw, ar hyd y leiniau  
(yn hyrddio, corddio, cwrddyd, yn gwledda ar wynt)  
beth bynnag ein croen, beth bynnag maint ein hoedran.

Pan chwyddid y leiniau llesg hyn â bola'r gwynt,  
gorymdeithiem hyd y rhodfa. Codid ni'n fwy rhydd  
nag oeddem ni. Eliffantod ar denynnau oeddem  
ar hyd yr awyr. Pan lanwyd ni â bochau'r wybren,  
peidiem â bod yn sgerbydau heb ysbrydoedd storm,  
a rhwbiai llwyth yr awel mor esmwyth dros ein llwch.

Wedi newid y gwynt, diflannai'r awel nawr. Hen  
awen, edrychais arni, ac yna'n ofnus estyn esgyrn  
fy llaw ati, a gosod cledr ar hyn o lyfnder croen  
newydd. Roedd dy groen yn troi yn grin fel henaint dail  
dy draul mewn tywydd. Ac yna, tro. Mor debyg hyn oll yn y bore



i weld llo'n cael ei eni – tu ôl i'r llenni, y brigau goesau'n  
ymddangos, ar gam, yn ysgwyd mewn gwynt, ymdrechu

wthio, yr olygfa'n pipian gyda'r corff, a thrwsgl ymdaflu  
o'n blaen, a'r llo'n esgyrn gwan ar y llawr heb badlan nawr,  
nes i'r haul – heb anadl – siarad allan, a'r cyrff yn codi'n  
newydd o'r tir, a siglo ychydig bach. 'Ewch!'

Yn sydyn roedd

awel yr haul yma wrth ein hochr; a thi, heb bwysau gorila'n dinistrion  
y mentrusion dillad hyd yr ardd yn gweld y gwynt yn chwythu bywyd  
i'r hen wraig a myfi, i mewn i'n hysgyfaint, gan godi'n ifanc,  
a'i chroen mewn hoen yn f'ymyl i'n cydateb.

## CADW DIOLCH GAEAF 2015

Deunaw yw Donald:  
haul yw hi.  
Dewr ŷnt yn ein Duw ni.  
Gwrthwynebir tiwn gaeaf.

Eto, does dim perth i brydferthwch:  
dal potel yw o dan raeadr haul  
heb glawdd, i ganghennau  
ddal eu ffrwythau. Diliau i'w dala

yn yr awyr ydynt. Paradwys  
mewn trysorflwch clwm. Ond  
nid yw bodoli'n ddigon. Oedwch  
mewn bywyd uwchben rhosyn.

Rhaid i hyn o brydferthwch wrth  
ymestyn dan ysblander Meistr  
i'w awelon yma arafu'r heulwen,  
a rhwyfau sŵn yn yr awyr yn araul.

[*Haul* yw teitl cyfrol ddiwethaf Donald Evans, a dderbyniais yn anrheg, 2015]

## GWYLIAU AWDUR IFANC

Nhw oedd y genhedlaeth a ddysgwyd yn llym gan law.  
A'u cefnau'n ddysgedig dan fflangellau, plygent heb wybod  
dim hyd at eu gliniau heb saib mewn dŵr er mwyn  
i'w merch fod yn sych a chwarae'r cwbl ar lan y môr.

Cryment drwy'i gilydd er mwyn y genhedlaeth nesaf.  
Gwasgarent eu paill anwylyd 'wyt ti'n gysurus mewn angof nawr?'  
Llawen mewn stormydd treuliedig oedd chwerthin eu blodau.  
Tyfasant yn llwyd a'u bwyd yn llaith a llwm, yn hir;

at eu gliniau mewn dŵr fel llun yn y caeau reis, heb wyliau,  
tyfent eu llyisiau, tyfai'r glo o'r golwg ym mannau  
cudd twnelau eu henaint, er mwyn i ieuenctid beidio  
â sylwi a darganfod mewn inc ddychmygion ynghylch dyfodol;

ac o'u herwydd, daeth oes newydd yn rhwydd ei rhith  
iddi hi fel pe baen nhw'n diriaethu'r hardd ar y lan lân,  
y ferch rydd a sgrifennai dan goeden am bethau eraill  
yn heulwen ei hinc ac yn felys ynghanol ei gwyliau.

## MWYTHO'R GATH

Anadlwn yn ddifeddwl  
drosti wrth ei mwytho'n beiriannol.

Pe symudwn, i sylwi arni,  
fe ffôï dan anadl y bwrdd.

Byddai'r gogwydd lleiaf gan law  
yn dod â byd dieithr drosti.

Y mwytho esmwythaf oedd  
yr anadl un a'n clymasai ni.

Pe newidiwn yr arddull, sylwai;  
ac anesmwythai ffurf ei choesau.

Pe lladdaswn hyn o anadl araf  
ddihidans, düwch fyddai 'nhawelwch, –

y gelyn diog o anadl a hongiai  
wrth fy llaw ddisymud amdani'n

hyll a guddiai'r ennyd hwn nawr  
â thywyrch, – a rhoi gor-sylw iddi

mi welwn ei hymateb-perthyn  
bach yn claearu, ac yn bywhau

a chynnau. Gwelwn anadl dieithrwch  
yn eirias i'w hanadl. Dôl'r pawennau

mor udol â gwynt. Byddai'i hanadl  
hi'n hedeg fel oriau dros drystau lliw

dan y bwrdd a ddatrysai gwllwm  
yr anwes anwel, a'u trystau diflan,

di-ddweud gan estyn petalau coch  
eu bysedd am fod ei nyth ynof nawr

ar chwâl rhag sylw cudd a blêr,  
diofal o ddeifiol, oherwydd methu

â pheidio â'i hanwylo'n iawn, ond ei deffro  
hi i greulonach cerrynt na mellten.

## DAU TRA HYNAFOL YN MYND I WELD Y MÔR

Ni wn ai ti neu fi a wthiodd y llall  
i mewn i'r car yn erbyn ei ewyllys:  
y ddau mae'n debyg gan fod eisiau dau  
i symud eu methiant symud. Fe yn y cefn  
ar ei gefn, yn wrthryfelwr yn erbyn  
eistedd, heb hoen yn ei ffolennau poenus  
er mwyn ailanwylo rhodfa'r môr twristaidd.

Hithau'n gyrru'n araf, mor garcus ger y môr.  
Gorffwysent yno, a'r glaw yn cuddio'r ffenest  
yn dawel gyda'i gilydd, heb neb yn siarad.  
Nid dymuniad eu munud fu diflannu  
i mewn i'r trai: ni ddymunai dagrau môr  
ar wyneb ffenest wahardd neb rhag  
cyfarfod â'i gilydd ar bwys rhyfeddod môr. Ond  
uniaethwyd hwy wrth fod yng nghymdeithas  
y môr, fel môr. Ni allent atal eu dagrau.

Bu'r trai henaidd hwn yn eu tynnu ato heddiw  
er eu gwaethaf, – fel treigladd tywod ar gil,  
y sugno garglan, y rhwnc yng ngwddf  
yr eigion. Ni allent hwythau ond ceisio'i  
fodloni drwy daflu ynddo heddiw eu broc môr,  
ac ymaflyd mewn tangnefedd a'i gadawsai ennyd  
mewn trai a llanw amyneddgar unol llwyd.  
Ond yn hedd ei gilydd fe gawsent gwmmi da.

## AWEN NADOLIG

Crwydrai'r gerdd o gylch y tŷ fel teigr  
y tu allan, gan edrych lan ar ei ffenest  
yn oer ei liw, a'i bawennu'n disgwyl  
dianc rhag syflyd sŵn, o flaen awen y gaeaf.

Crwydrai'r noson aeaf yn bur streipiog  
o dan y lleuad a oedd bellach tu mewn i'r tŷ.  
Sleifiai'r nos bererin yn ei thro ei llathr  
ysgythru o beryg tan gario i ni ysglyfaeth.

Mae hi bob amser yn nos yn rhywle.  
Roedd seren yn y ffenest, ond yr ochr  
fewnol. Felly doedd dim crisialau'n  
crychu nodwyddau ar belydrau gwydr.

Ni chollwyd wincio'r oerfel ar grwst di-hedd  
y ddaear. Wincio roedd yr awen. 'Peidiwch  
â sgrifennu cerdd,' meddai, 'nes ichi deimlo'r  
bwled yn torri'r croen.' Dim ond tafliadau

o oleuni'n meddwl am flwyddyn newydd  
fel adar newynog fydd yn gwau drwy friwsion eira  
yng ngwres eu pwdin i gadw'r teulu: mae eiliad  
o olau'n werth llond bywyd o gynnes ddeffro.

Ac yna, ymffurfiai'n ddyn eira uwch fy nesg,  
gyda'r geiriau'n dadmer, a'u tawdd i bawb yn waed.  
Mor daer yw Dy seren yn dod â thangnefedd eto.

## MYNYDD

Bardd yw'r un olaf i'w holi ynghylch ystyr Mynydd.  
Sut y'i dwedai ef? Gŵr yw a wŷr fod ceisio'i ystyr  
yn ei ddiraddio, a'i fesur, beth bynnag, gan ymledu'n

absenoldeb deall. Bodlonai wedi gweld y copa.  
Condemniwyd dyn ers talwm i eistedd yng nghornel  
ei gell, gan wybod yn chwerw mai ei ryddid hir

i ddewis a'i gollyngodd ef i Fynydd. Fe ddigwyddodd:  
bod i fyny yno. Ac mae rhywbeth yn y peth oedd  
yn dal i ddigwydd bob eiliad, heb reswm, dim ond profi

hapusrwydd llwyr, heb gyrraedd yr ochrau, gorffwys  
yno, ac awyddu nawr – heb ond derbyn eiliadau bob man  
yn fyrdra'r presennol, a ddallai'r fynwes – er mwyn rhoi

hyn ar bapur. Digwyddodd y sydynrwydd i gyd yn dyner;  
a gobeithiwn y bydd yn para'n hir, hir, hir, f'anwylyd.  
Methwn â meddwl am ddim byd arall nes methu â meddwl.



## BARF WEN Y CRWT BACH

Mewn cenfigen, gwyliai'r wŷr bach wrth ei draed  
ewyn ei daid. Chwenychai; trôl'n gêm ddynewared.  
Fe wyliai geg ei daid wrthi'n gwingo'n acrobatig  
droeon, fel pe bai yn barod bob ennyd i gorteddu.

Ehedai ambell bluen fân drwy'r awyr. Tra chwifiai  
felly freuder, fe ymddangosai'i wyndra rhyfeddol  
fel pe bai'n eu clymu, hwythau, oll ill dau'n gyfarfod  
dwys rhwng dwyoes amwys wedi dod yn unoes.

Ac efelychai'r crwt y gwyn ystumiau hyd nes bod  
ei daid yn blino a'r ewyn ei hun yn sychu; a'r crwt  
yn blino ar yr ewyn-freuddwyd diflan, a'i uchelgais  
bythol mor wibiol ag yw goleuni dydd. A thrôl

y crwt oddi yno. Ac yn y troi yr hyn a gofiai fyddai  
rasel yng gwraidd y farf yn treisio'r gwyn a'r mymryn  
coch yn y cornel yn tocio'r eigion a'i storm yn eu huno  
yn nhrochion trwch ei freuddwyd. Heno, o huno

yn ei wâl, balch yw'r crwt fod y wal gerllaw heb siglo  
yn nyfnder ei hunllef. Roedd yr oriau wedi'u hel  
yn dwt i fasedg y cynhaeaf, ac yntau at ei liniau yn  
yr eira mawr, a breichiau'i daid yn gysur o gau amdano.

Drannoeth, rhuthrai'r crwt i mewn ac allan o'r hin,  
a dawnsiai yn y gaeaf gan daflu'r dyrneidiau oerfel  
i bob cyfeiriad gan gyffwrdd â'u pelydrau ffresboeth  
a'i ffwrn. Fel angof ingol, ymwasgarai ef mewn plu.

## GARDD LLANILLTUD FAWR

Bu Illtud yn ceisio

tyfu blodau o Ffrainc

ar lannau Hafren.

Methodd nes i'r awel dreiddgar

gyrraedd y lan

ac i'w wanc am swanc

ymyrryd â phetalau'r

cynefin. Ymffurfient

yn eneauu babanod

wedi tynnu oddi ar

y ddiden, a magu traed

iddo heb ddawnsio.

Dysgent iddo na châi ef

ddeall dim o'u harddwch

esoterig nes ymgartrefu.

Nes i'w haroglau

godi oddi ar eu cefnau,

ni wnaent ond plygu cefn.

Wedyn y ddi'r plygu arall

gan goesau'r blodau

yn ddigon cryf i nofio

drwy awel syth, yn frodorion

dan wyleidd-dra cyfarwydd

llygad mwyndlws Hafren.

Wedyn byddai'r Ffrengigrwydd estron hyn,  
wrthi'n plygu bellach,  
yn ddigon cryf i nofio  
drwy awel syth yn frodorion  
heb byth osgoi gwg  
rhwystrol gan lygad Hafren.

## YR HEN GEFNOGWR YMDDEOLEDIG

Ymhlith y dorf a lifai i lawr y stryd o'r pwll  
yn ewyn ei hafon, yn symudiad du y cyrff, tasgai gwyndra  
henoed yn ei gof wedi bod ers dwyawr yn frigyn  
o ieuentid mewn pac yn chwerthin chwil, a'r lliw ar siwmpwr  
wlân ac ar wyneb coch yn cynnwys Cymru fuddugol  
na fu'n bod erioed. Dyma fe'n dod allan o'r waedd  
a'r gwallt yn saim a thamprwydd yn yr ymdaith wyllt,  
tua'r llonyddwch, tua'r heneiddio cefn drachefn  
a'r gwragedd ar drothwyau mewn unigedd. Allan o hud  
y dorf ymwithiai ef yn ôl i'w gof, a'i beirianwaith  
yn rhyw dician yn ddadlwythedig wythnos drachefn.

Wedi bod ddwyawr mewn catacwmau'n sgrymio  
dyma lygedyn o arferoldeb yn celwydda eto,  
fel goleudy'n dryllio gwyll y pwll, fel crafangau cranc  
yn ailymaflyd yng nghnawd realedd y tu allan.  
Ac ar y crafangau roedd drylliach cnawd a chyrrff.  
Diflannodd pymtheg, o'r bachwr hyd y cefnwr.  
Diflannodd ei gyhyrau, a rhwng y gwacter perl  
a hyn o ddiriaeth, ceir pont yn ôl i ynys gudd  
y pwll, a'i hawntio du, a'r ddaear a dalai'i faeth  
tan yr wythnos nesaf pryd y caiff ef eto actio  
arwriaeth rhyfeloedd a fu gynt yn wynebu Cymru.

## AFIAITH AR DDIBYN

Yr wyf wedi dod i ganol bywyd tawel.  
Saf egwyl ar uchdwr y gyfrinach.  
Mae'r haul yn casglu mwyr ar y dibyn  
gan ddisgyn oddi uchod arnaf i –  
a finnau'n esgyn.

Rŷm ni'n dau mewn peryg: finnau wrth esgyn  
ar y cerrig rhydd  
(a'm hewinedd meddw a chroen fy mysedd gwllith  
yn llawn o waed), ac yntau'r haul yn llifo'n goch  
mewn amryfusedd. Ond ar sail fy nghryfderau fy hun  
esgynnaf i gyrraedd ar y dibyn  
y mwyr tywyll, heb ddim byd oll i'w wneud  
ond hongian gydag ef fel lampau.

Yn ei grynder uwch, mae nerth y cread oll  
yn llaw yr haul wedi dod i lawr.  
Gwenyn a gwybed braw sydd yn nhyllau'r dibyn,  
ac yn ail-ymweld â chlecs anwel yr ymylon.  
Gwaeddant drwy greithiau'r cwmp a all fod yna.  
Tywallta'r gwenyn eu hieithoedd teigrau tu ôl i'r ffin  
y weiren bigog fry, holl fwyar y fro.  
Sgriwia'r gwyllanod eu trwynau i mewn i waed  
y mwyr fel newyddiadurwyr nodiadgar  
yn taro ar ddail y borfa storïau am saib.

Ac felly yma y des i weddïo o'r neilltu –  
ymhlith y sgrechian lle mae'r haul yn bod

yn gartrefol hyd yn oed nawr wrth iddo ddarfod, –  
wedi bod mor agos at y gymdeithas ohonom,  
wedi bod yn ymwingo am orig yn fy nwrn.

## CARWRIAETH HEN GLOFFYN YSTYFNIG GYDA'R HAUL

Nid dyddiau Mai yw'r rhai a fyn ef gennyt  
i'th rwympo yn ei raffau cafflog ef.  
Fe gaiff fodloni ar bobdydd i goleddu  
y medd-feddalwch gwae a gynili di:  
iâ yn y groth; iâ yn ei lygaid hefyd.

Nid ar ei eistedd clwyfus y cusana ef di.  
Rhy uchel yw ei siom i fod yn siom.  
Rhaid i'w gefn ymestyn i safleoedd eraill  
i'th anwesu: dioddefa ef y gwyniau gwan –  
draenen yn dy gefn; draenen yn dy dafod hefyd.

Ond deffroi di afieithwch yn y gwaed  
a thrwy anghysur mae'n tiwnio cyd-galonnau  
i'w tynnu dros dy brydferthwch clai  
a thaenu – dros dy gloddiau bythol di –  
loer yn ei glust; lloer hen yn ei sgidiau hefyd.

Hyd yn oed, yn dy chwithdod colled y cei  
mai styfnig yw'r haul ar led y galar swil.  
Ac mae'r coflaid diffryth ganddo'n pallu  
cau dy ddillad treuliedig i'th gynhesu  
mewn dagrau brau a phwll o absen gaeaf.

Dim ond yr un sy'n dy hen adnabod di a'th deimla  
wrth i ti geddetian ar hyd y ffyrdd hollol arferol;  
dim ond y sawl a fu'n nyddu yn dy neithiwr;  
dim ond y ddraenen, yr iâ, a'r lleuad sy'n gallu  
dy ddala'n anwylyd yn ei freichiau awyr.

## ISIS

Dinistriodd cigfrain larpiau  
cysgodion unigrwydd yn breuddwydio  
tywyllwch. Ni bydd y deffro byth yn ei gredu.

Tynnent asen waedlyd o'm cesail i  
a methu â'i doddi'n ôl â gefel  
trosol a thyrnscriw caeth o brofiad maith;

Gorffennem y disgwyl  
am y rhyfel nesaf ar ôl y nesaf  
a ddechreuodd ddoe.

Wrth i'r rhacs olaf o ffydd gael  
bod sêr yn rhy ofnus  
i ddod allan i gael cipolwg ar y nos

(yn dawel fel mwyalchod yn chwilio  
yn yr union leoliad cywir i chwitian  
uwchben), roedd y bryniau'n dioddef.

a rhydd hyn yn dirion eu sgrech yn stond  
yn y botel lle y gwichiant wrth fy mrawd –  
'clyw ni. Diolch am yr adenydd.'



## BARDD YR UNFED GANRIF AR HUGAIN

Sut gallaf fod yn brydydd, ac yn ddim arall  
nawr pan fydd fy nyddiau wedi dirwyn i ben  
a thewi, a fi'n peidio â chwilio amdanynt mwy?  
Hiraethaf am noethi'r ysbryd rhag atodiad  
gan fy mod mor hen, a henaint mud yn dwyn  
y mydr, a'i golli: 'Gof, oes rhywun yno?'  
Ar hyd y lonydd coeg a'r twneli tin-elw  
pa le mae'r neilltuolrwydd yn neidiadau'r had?

Ond ymddiried wnaif y bydd yna rywun unig  
yn cerdded hyd y gwythiennau yn chwilio ffyrdd,  
rhywun sydd yn gân a gafodd ymgartrefu ynof.  
Trembyn sy yno, a grwydrodd oes daear heb le  
i roi ei ben, ac yn methu â ffeindio'r ffau.  
Fe wŷr ef dôn. Deil i dwrio ar lwybrau caled,  
a rhoi i'r awen anrheg na phrofodd hi erioed.

Cadwyd y caru caled gorau tan y diwedd.  
Fe fu'r degawdau dreiniog yn fy magu'n dwym  
drwy'r gaeafau dygn, drwy'r gaeafau ofer-ymdrech.  
Dihangant o'r twneli am fod y glaw tu allan  
mor ffyddlon yn chwilio amdanaf â thosturi'i gerdd.

## O RAN

Achubwyd ef; ond mae ef yn holi pam  
mae hwnnw draw yn ffermwr gwell nag ef,  
a hwnnw'n pechu'n rhadlon o afradlon  
tan ymblesera'n falch o'i ddoniau rhydd.

Caiff hwnnw fywyd brafiach beth nag ef  
heb fod ei gnawd gwardig yn madru yn yr haul  
a'i groen yn gochach yn hongian dros y wal  
i sychu'n galed ac i weld hen wae.

'Do. Amaethaist ti dy erwau i fwynhau crefft y lleill  
yn fratiau fel pe na baet yno'n llawn o absen.  
Collaist beth arian. Treiglodd dy dabledi aur  
i'r carthffosydd, gan rollo fel dioddefaint gwlyb.

Cyffredin dy nawn, cyfarwydd ag oerni corneli.  
Mae'n wir iti gael gras naturiol llai na'r disgwyl  
a'i ddwrn yn curo yn y caeau nes dy blygu, – a'i roi'n  
gofleidiad cyfoethog dihaeddiant yn dy ddilladu.

Cyffredin dy ddawn, a thra chynefin garpiog.  
Ond ti, fe'th wnaethpwyd di yn blentyn-ddarn  
o dragwyddoldeb. Rhoddwyd yr Arglwydd ei hun  
yn orchudd drosot, a'i blygion adduned sgarlad.'

## YMATAL

Mae'r cof yn cogio mai distawrwydd yw  
ac nad yw'n canu dim na siarad dim.

Rhwng cariadon ceir cyd-ddeall sy'n ddi-air  
gan aros yng ngŵydd ei gilydd felly am oriau.

Rhwng mam a'r baban bychan sydd yn derbyn  
ei llaeth, bodlonir heb anesmwytho o gwbl.

Ac eto, mae yna waedd sy'n gyfrinachol  
a dyr gyfuwch â'r nefoedd, dwfn ei dioddef;

a braint yw gwybod am yr anrhydedd yna  
o sŵn. Cysur yw arogl'i dân a phrofi'i ludw.

Braint yw peidio â chydymffurfio yn y tywydd  
â'r peidio â dweud, nac ymatal â'r peidio â chusan.

## MEWN TRAFNIDIAETH WEN

(gyrru yn y gaeaf)

Dywedai'r wybren i gryndod selio'i eira drosom.  
y mawredd lledled hwn o wyndra bywyd.  
Dyma ni'n byw am flwyddyn arall a'i weld drachefn –  
doedd dim llawer, ond digon byth i'n hargyhoeddi  
beth y gellid ei wneud wrth ledu'r wybren hon o flwyddyn  
ac ar y ddaear buro'r hen gyswllt rhyngom.

Un peth ynglŷn â gyrru dros wyndra gyda'n gilydd  
yn y car, does dim cyswllt llygad ar y daith,  
meddai hon wrth fy ochr; ac fe fentrwn, (rai  
bychain), ddweud 'y tu hwnt i'r personol'  
fel gwybed gwybodus – am y niwlen wynlliw hon  
a'i chaledu anadl, y crynu pellterau gwelw.

Pwy gyneuodd y llusern? Pwy oleuodd y gwallt? Pa fore?  
Gollyngwyd colomennod yn glwstwr o fflamau fflur.  
Amgaewyd y cyswllt gan wenau, diflodeuwyd dyddiau  
gan sibrwd dibryder o raffau'n trafaelio o'r nen  
yn fwg dibeswch coronog i wneud un golau gwyn ohonom.  
Carasom y gyffes 'fu'n wybod i ni mewn gwacter.

Dyw'r eira'n ddim ond arwydd, ond y mae'n llenwi  
pob modfedd o'r awyr. Ei swydd i ni yw tawelychu  
cyd-henaint toddadwy yn ogoniant o gariad rhuthr.  
Rhyfedd i'r Arglwydd adeiladu'n tŷ mewn car:  
a'n hailblentyndod i fod yn blentyndod drachefn,  
ac i dywallt ein hamser i'w grensian dan olwynion newydd.

## BUDDUGOLIAETH Y GWYLANOD

Gelynion tangnefeddus i wenwynwyr

yr awyr

yw'r gwyfanod.

Ni tharfant –

rhyw ddeg o deg-berl

â thyrfau

ar yr absen bell.

Harddant ag afiaith pefr

wrth hyrddio'u paill cu

o'u plu pell mewn hedd o wefr.

Yna, y mae'r hofrennydd

yn chwerwi'r awyr

â chawr ei ruo.

Mae ei drwst yn llamu drostynt

yn ei amwisg

o anferthedd amal.

Wedi'r sŵn, a'i gilio gelyn

daw'r swyno

yn ôl yn wan

a dychwel

y gwyfanod deche heb wyllo

a dihuono byd â hyntoedd pell

eu goleuni.

Ailhawliant eu lle.

Ni fynnant domi ar y ne  
newydd.

Astrus fu carthu'r gwastraff.

Ailharddant le rhuo'r estron

â charthiant eu hyrddiad gloyw.

## EFENGYLEIDDWYR Y LOBI DRYLLIAU

Dewch,  
dyrfa, â'ch darfod  
a dal

prif ateb a diléit  
pryfetach  
niferus yr angylion efengylaidd.

Dewch â'ch cabledd,  
dewch â grym  
i saethu golau'r galon.

Beth yw gynnuau  
ond gobaith gweiniaid  
yn hongian yn eu hangau?

Mae'r gynnuau  
yn diffinio prif gynneddf  
nefolaidd anifeiliaid:

noddfa i ddodwy llonyddwch  
mileinig fesul miliynau  
a'u caethiwed

yn afradu cyfrodedd  
gweledigaethau hwyr  
a ddôï oherwydd y ddaear,

yma yn America

Ile y gobeithiwyd mor hir  
am y bywyd.



## SEILIAU CANT AC UGAIN O BLANT YN ABER-FAN

Yma yn y cymoedd lle bu gwagedd i lowyr  
yn gloywi trothwyau, ac yn berwi eu cawl,  
yma lle y crafwyd y briwsion i adeiladu aelwydydd  
ac y digonwyd babanod i dyfu am awr,  
bwytaodd a threuliodd Marx foliau menywod  
i ginio a'u llowcian a'u llyncu'n grwn.  
Cyn bod dynolryw na byd, bu rhaid cael rhagdyb:  
'Pwy greodd y byd?'  
holodd Marx, 'Neb llai na boliau menywod?'  
'A beth chwydwyd allan?'  
Tydi, O! Ego-fol problematig, a'th ddeinameg groes.

Safai Realedd Marx yn lle Gwirionedd y gwirion,  
yn Aber-fan  
o dan yr adeiladau. Roedd craciau mewn mans uwchben  
yn ymhel yno cyn y llithrad hir.  
Ni ellid agor rhai o'i ffenestri, na chau ambell ddrws  
tu mewn i ragflaenwyr ffôl.  
Seiliwyd y pentref syml ar ofod dryswch-twneli dani  
lle y casglai'r dŵr  
fel llew yn disgwyl ei dro i neidio. Llarpiwyd yr ysgol a mwy.  
Llarpiwyd y cof.  
Ymwardwyd â stŵr yr iard. Ac yn ei le gwewyd yn dynn  
gan yr awdurdodau  
ateb dynol a balch y beddau, heb feiddio cyffesu pam,  
nac wylo'i gadwyni.

## Y GOF YN DARLLEN Y LLUNIAU

Eistedd a wnâi'r gŵr yn astud.

Eleni, yn y gyfrol luniau

mae'r cysgodion

yn odiach

na'i gilydd. Mae e'n gweled

yr efail yn rafio'n feddw,

eingion yn anghall.

Lluniwyd ef gan y lluniau

i'r efail a fu'n dawnsio

gydag ef o gylch y fro.

Codir ef nawr

gan gysgodion ei ddoeau

a chymysgedd ei ddaear

i rythmau'r mwg.

Ar fygu mae'r fegin yn enaid

y dyn hwn:

drwg y mwg yn darogan muriau'n

marw.

Mae march mewn arch yn amharchus

ac ager yn igian o'i gorff gorffwyll.

Ond dyna le'r gof ar goll yn gollwng

y gyfrol gall yn flinedig,

a'r cwbl o'i gofion gefail

orffwyll rhydd yn awr wedi dadorffen...

at ei draed ar y llawr.

A fuont? A gronnwyd y cysgodion  
heb aelodau atebol hyn i gynnal mwyach  
gyfrol ar ei lin  
yn y caffé gydag eraill? Eisteddai i fesur  
eu bywyd hwy mewn angof  
mewn llwyeidiau o goffi, fel gwry.

## GWIRIONI AR FYWYD

1.

Does dim mygu  
ar eira gwyn d'oriau,

hyd yn oed pan chwyth  
y byd y rhew hyd y stryd,

f'anwylyd anhwylus,  
does dim dau.

Chaiff neb rewi  
wobr yr awen.

Mae geiriau dy ddwylo  
yn hedeg yn heidiol.

Palla haul dy goflaid  
nes boddi yn fy mreichiau byddar.

Ond parod yw dy gusan,  
a bawdd yn fy mreichiau byddar.

Dim ond pan fyddi di gyda mi  
y ceir fy nghalon yn curo

mor barod ei chusan  
i fyny.. i fyny.

2.

Wedi'r i'r blynyddoedd wadu  
eu bod yno yn anwel,  
wedi i'r iach fod mor fach  
dan y traed triw,  
dwl oedd synied ein bod yn bodoli  
heb ddamsang ar amser  
er cywilydd i'n gelyn.

Rhedasom ar hyd eisiau  
ar ôl eisiau  
mor eiddil,  
ti a fi mor fyw yn ein  
dillad deillion.

Cei weld y llawr  
yn cael ei gladdu â llaid,  
a gwybod bod fy nos am rodio'n  
noethlwm fel athletwr  
gyda thi i ffoi ar dandem dandir.

Chei di ddim gochel rhag cochni  
yn lle y lleuad  
y tu allan i'r tŷ  
yn codi tollau  
arnom ni. Rwyt ti yn tewi yn y tywydd.

Mynnwn ddymuno yr awn  
ein dau gyda'n gilydd.

## DYDD CALAN MAI YN DAMASCUS

Mae'r dydd, a wnaeth bopeth iddyn nhw, yn eu herbyn  
yn gwingo yn y twll am gael ei adael yn llonydd,  
a'i gladdedigaeth erthylyn wedi'i wneud  
yn angof eisoes dan gryndod hir pasgedig  
plant Damascus. Ond doedden nhw ddim  
am gael ei ddileu. Bu'n rhy unigryw i hynny.  
Gosoden nhw ef yn friwus frau a charcus i mewn  
i fasged i'w dynnu allan o'u hetiau'n funudau tila,  
mewn malurion lawer fel y campiai'r rheini o un  
ochr i'r llall, yng nghlwyfau'r baw.

Hen ddydd ystyfnig sy'n dadlennu cymaint,  
hen bwdryn o ddydd, cyrhaeddai –  
drwy lwch yr awyr gogio – ar gefn pili-pala  
gredoau chwit-chwat y chwarae gwleidydda mud, –  
Archesgob Caer-gaint neu'r Pab, fel newyddiadurwyr  
i sôn yn rhwydd am heddwch rhwydd –  
i anrhydeddu Calan  
ymhlith cyfranwyr Ceidwadwyr, ac 'actorion'  
(ar ôl i foesau rollo i lawr awyr carthffosydd)  
neu 'sbortsmyn' a fethodd mwyach â rhedeg eu ras,  
ond a ddaw i ymlinellu gerbron y wisgfa sioe i fedalau,  
fel rhai a ddadleuasai am fri mewn llyfrau.

## DARLLEN HEN FFRIND

Mae testun yr Hen Destament  
fel cyfarfod â hen ffrind  
a welwyd yn y groth, ond ei fod  
yn elyn.

Ef a groeshoeliodd  
eich Cariad. Ef a fu'n cario  
dŵr Adda drwy'r canrifoedd oddi draw,  
wedi ethol y ffynnon ddŵr  
a ddrachtiodd bob dydd; ac felly  
rych chi'n tynnu ohoni beunydd.  
Hi sy'n eich trwytho mewn yfed.  
Oesau addo iasau i Iddew.

Mae'n ddydd sy'n eich chwipio i fynd,  
un dydd arall i gyfarfod â rhwystrau.  
Ni edy heddiw i chi gysgu;  
ni'ch gedy mewn corneli heb reswm.  
Cariad yw sy'n dod â'i gerydd.

A'r tudalennau hyn yw'r rhai a drowch  
ym maes y gad rhyngoch â'ch gilydd.  
Gwn yn erbyn gwn, a hunan  
yn erbyn hunan i ddryllio ach Israel  
a wasgarwyd ar y tir tirion mwyach.  
Ond cwrsodd ef drwy'r gwerysll  
carchar ar eich ôl wedi'ch gweld.

Rych chi'n cydio gyda'ch gilydd  
mewn pigau gwifrau, mewn simneiau  
mwg. Ac isod, rydych yn oroeswyr  
yn aros i enwi a beio'r llall a anogodd  
eich condemniad chi a'ch atgyfodiad.

Gyda'ch bysedd dreiniog olrheiniwch  
ffurfiau llythrennau'r condemniad yma  
sy'n hoelio arnoch yn ddwfn ei enw  
a'i gyfeiriad inni fod yn gyffredin gyda'n  
gilydd byth, allan o'n beddau...

## II

Tynnwch y byd o'ch poced.  
Och! Meddyliwch am eiddilwch y ddelwedd.  
Ymlusgodd hanes eto lwrw ei din  
dros yr adfeilion ffres, ifalu stori.

O leiaf fe glywch dri:

derwyddiaeth yn cael ei diwreiddio,  
hyntoedd Rhufain wedi'u hawntio,  
a Golgotha fel crac sy'n crawcio  
i donnau dinod lapio'r bywyd hwnnw mewn lepian.

Ac yna, wedi ymwarded â'r derw a phob hud  
o'r fath hunllef,  
bydd adfail Golgotha'n rhydd yn ei raid.  
Wele bedwar deigryn o dawelwch.  
Wele'n bydoedd. A rhwystrau glyn y goleuni.



Cyflwynodd un genhedlaeth aberthged  
o dlodi gerbron y drws,  
y genhedlaeth a fu'n byw (yn  
ddisylweddoli) i eraill, heb wneud  
fawr ond gogoneddu Duw...

\* \* \* \*

Caeodd y drws, a chodwyd cenhedlaeth arall  
a gafodd fwy o dai, mwy o geir, mwy o wyliau,  
mwy o arian er mwyn arian.  
A gwacawyd y capel dan bwysau'r golud...

Adda yw'r cwbl. Fe'i claddwyd yn ddiseremoni  
yn eu seciwlariaeth.  
Troes y lleisiau croeso'n ysgall  
a'r mynyddoedd o oriau a roddwyd; fe'u gwastawyd,  
bob awr o bob dydd.

Pwy sy'n eu twyllo'u hunain?  
Beth a oferwyd ar fin y ffordd?

Y blynyddoedd na fuont yno?  
Yr anialwch o funudau di-stop a stopiwyd yno?  
Na: dim ond hydweidd o fywyd a wariwyd yn wag  
rhwng bore a nos,  
gwaith cyson heb ddim ennill ond holl ogoniant Duw.

Pwy a dwyllwyd?  
Pwy na fu yno?  
Pwy na fu'n caru?

Beth yw ystyr y pentewyn o'r tân?  
Y marworyn sy'n disgleirio'n fud.  
Ym mynwes y marwor mae yna lygod bach  
prydfarth yn procian rhyw ddiereidi siffrwd  
ymhlith dwst y cwsg.

\* \* \* \*

Darllenydd y gad llynedd,  
a welodd, a academodd,  
ond osgôdd ei chywair.  
Gwastraffwyd llygaid disglair.  
Gwgu oedd ei reg o geg,  
y gŵr na fedrai ddim ond gwg  
Doedd ganddo ddim llygaid:  
dim ond munudau o wg gwag ar adenydd dienaidd.

Dôl i'r byd ag un agwedd yn unig –  
i wgu. Gwg oedd ar gyfer lladd ymweliad  
gan bob gwên. A gwywo a wnawn yn llawn ac yn llwch,  
ac yn wag gydag ef. Cydiodd ei wg  
yn llawr y stumog gen i, a thyfu'n ffurfafen  
fel mesen am oesoedd yr annwn.

Mae'r ffurfafen yn crymu gerbron  
yr isfryd a'r isfyd hwn.  
Ond gwrthodi ei darllen.  
Ni charlemir ar hyd gwastadeddau  
er bod yr awel o'n tu ôl  
yn ffurwelio o'n tu blaen mewn tshiaeniau.

Mi wn pam. Am ei fod wedi mabwysiadu

marwolaeth Belsen i dolcio'i dalcen  
a phlant yn unswydd i grio megis cerddorfa  
yn ein hystafell ddu o flaen y carchardy.

Yn araf fe'i collir dan gesair o eiriau  
a'u dibenion di-ben. Ni fwriedir doddi gair  
o Destament ar bapur. Ni fwriedir  
darllen mwy am y rhwystrau. Brawd yw'r hwb  
i rodio â'r traed ar strydoedd  
a'r tir tradwy. Dewiswyd y llwybr caregog  
yn hytrach heb wybod.

Bach o beth felly  
fu doddi hwiangerdd yno ac angerdd baban  
yn fwriadol, a bedyddio bydoedd  
mewn cawl o amynedd Duw.

Ailadroddwn drywyddau.  
Ond erys mwys o oddef.  
Mil o weithiau heddiw fe fu'r Llall  
yn hedfan i'r llawr i gyffwrdd â'm gwefusau  
a'u caru, sy'n gallu ysgogi gwyndra cân  
arall hyd ddiwedd amynedd y rhod.

## CERDYN DYDD FFOLANT

Valentine oedd enw fy nhad. A'i greddo  
oedd bod pob dydd yn benblwydd  
oblegid mam. Ac erbyn hyn rwy'n gweld  
y pwynt. Er i santes Dwynwen gymryd lle  
Ffolant yng nghalendr y flwyddyn, drwy hyn  
o gywiriad anfonaf ato'r un hen ddatliad carchar  
annwyl dros anialwch gwareiddiedig y gerdd;  
yr un baich yn union i'r clo ar ddrws i mi;  
yr un ddinasyddiaeth sydd i'r unrhyw deyrnas.

A ffurfiwn gadwyn bleth o lygaid y dydd  
i gylchu'r glôb. Symudwn hyd-ddi'n ddiamgyffred  
o rythmig fel pe bawn innau'n haul o fath.  
Yng ngwlad y saint, ein braint yw siarad yn un.  
Gan fy mod yn Gristion, 'dydd' eto arall wyf,  
un sy'n dweud fy mod yn methu, ac yn mwynhau bod  
yn gynhenid wahanol. Felly, bydd dydd Sul, yn glod  
i'r Prydferth uchod. Heddiw, anfonaf gerdyn-yfory ddoe.